



Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Pwyllgorau cynllunio, dirprwyo a chyd-fyrddau cynllunio

Dyddiad cyhoeddi: **6 Hydref 2014**

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **16 Ionawr 2015**

Trosolwg

Eir ati yn y papur ymgynghori hwn i amlinellu'n cynigion ar gyfer diwygio'r broses penderfynu ar geisiadau cynllunio drwy gyflwyno is-ddeddfwriaeth a chanllawiau.

Yn benodol, mae'r papur ymgynghori'n nodi'r angen i safoni pa benderfyniadau sy'n cael eu dirprwyo i swyddogion, ac i bennu maint ac aelodaeth pwyllgorau cynllunio ym mhob cwr o Gymru.

Mae hefyd yn ceisio barn am faint ac aelodaeth cyd-fyrddau cynllunio a phanelau cynllunio strategol.

Sut i ymateb

Mae set o gwestiynau penodol yn y ddogfen ymgynghori yr hoffai Llywodraeth Cymru ichi ymateb iddynt.

Dylech anfon eich atebion erbyn

16 Ionawr 2015.

Mae croeso ichi ymateb yn Gymraeg neu yn Saesneg a dylech eu hanfon drwy'r e-bost neu drwy'r post erbyn **16 Ionawr 2015** fan hwyraf.

Gallwch ymateb mewn unrhyw un o'r ffyrdd isod:

Drwy'r e-bost:

Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad (Atodiad 2) a'i hanfon at:

planconsultations-e@cymru.gsi.gov.uk

(rhowch 'Pwyllgorau cynllunio, dirprwyo a chyd-fyrddau cynllunio - WG23070' fel pwnc)

Drwy'r post:

Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad (Atodiad 2) a'i hanfon i'r cyfeiriad sydd i'w weld o dan yr adran 'Manylion cysylltu'.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae fersiwn ddrafft o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r papur ymgynghori hwn i'w gweld yn Atodiad 1, a dylid darllen yr Asesiad hwnnw ar y cyd â'r papur hwn.

Mae'r cynigion y manylir arnynt yn y papur hwn yn seiliedig ar y dogfennau a ganlyn:

- Tuag at Ddeddf Gynllunio i Gymru: Sicrhau System Gynllunio Effeithiol. Adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru gan y Grŵp Cynghori Annibynnol. Mehefin 2012.
- RTPI Cymru. Study into the Operation of Planning Committees in Wales. Adroddiad Terfynol. Fortismere Associates ar y cyd ag Arup. Gorffennaf 2013.
- Cynllunio Cadarnhaol. Cynigion i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru. Llywodraeth Cymru. Rhagfyr 2013.
- Study to examine the planning application process in Wales. Adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru gan GVA Grimley. Mehefin 2010

Mae'n bosibl y bydd y darlennydd am gyfeirio at y dogfennau hyn i gael rhagor o wybodaeth.

Manylion cysylltu

Dylid anfon pob ymateb erbyn

16 Ionawr 2015 at:

Ymgynghoriad am bwyllgorau cynllunio, dirprwyo a chyd-fyrddau cynllunio

Y Gangen Rheoli Datblygu

Yr Is-adran Gynllunio

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Neu drwy'r e-bost at:

planconsultations-e@cymru.gsi.gov.uk

(rhowch 'Pwyllgorau cynllunio, dirprwyo a chyd-fyrddau cynllunio - WG23070' fel pwnc)

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad hwn, mae croeso ichi ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost uchod neu ffonio Luke Seaborne ar 029 2082 1573.

Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw.

Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon.

Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cynnwys

- 1. Cyflwyniad**
- 2. Protocol Pwyllgorau Cynllunio**
- 3. Pwyllgorau Cynllunio**
- 4. Rôl y pwyllgor cynllunio a'r aelodau**
- 5. Y Cynllun Dirprwyo**
- 6. Cyd-fyrddau Cynllunio a Phaneli Cynllunio Strategol**
- 7. Effeithiau Ariannol**

Atodiadau:

Atodiad 1 - Y Trefniadau Dirprwyo Presennol

Atodiad 2 - Strwythur a Siartiau Llif y Cynllun Dirprwyo Cenedlaethol

Adran 1 - Cyflwyniad

- 1.1 Mae Llywodraeth Cymru, drwy gyfrwng Bil Cynllunio (Cymru), yn cynnig pecyn o newidiadau a fydd yn cyflwyno diwygiadau eang i'r system gynllunio ac i'r gweithdrefnau rheoli datblygu.
- 1.2 Yn benodol, mae'r Bil yn cynnig y dylid newid y modd yr eir ati i wneud penderfyniadau cynllunio, ac mae'n cynnwys darpariaethau a fyddai'n caniatáu inni safoni trefniadau pwyllgorau cynllunio a threfniadau dirprwyo i swyddogion, gan gyflwyno'r un trefniadau ledled Cymru.
- 1.3 O droi at y sylfaen dystiolaeth sy'n sail i'r Bil, gwelir cryn amrywiaeth o ran arferion pwyllgorau cynllunio ac arferion o ran dirprwyo penderfyniadau. Gwelwyd, yn benodol, bod lle i wella rhai agweddau ar drefniadau pwyllgorau cynllunio a'r trefniadau dirprwyo i swyddogion sy'n cael eu harfer gan yr awdurdodau cynllunio lleol.
- 1.4 Yn Argymhelliad 56 o Adroddiad y Grŵp Cyngori Annibynnol, awgrymir¹ y dylai Bil Cynllunio (Cymru) gynnwys pŵer a fyddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau er mwyn:
 - Cyflwyno cynllun cenedlaethol i'r awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer dirprwyo pwerau gwneud penderfyniadau
 - Rhagnodi maint ac aelodaeth Pwyllgorau Cynllunio.
- 1.5 Mewn ymateb i'r argymhelliad uchod, comisiynodd Llywodraeth Cymru y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Tref (RTPI) i oruchwylio astudiaeth i'r modd y mae pwyllgorau cynllunio yng Nghymru yn gweithredu. Roedd astudiaeth yr RTPI² yn cytuno â'r argymhellion yn adroddiad y Grŵp Cyngori Annibynnol a chyflwynodd argymhellion ar sut y gellid mynd ati i roi cynllun dirprwyo cenedlaethol a safon genedlaethol ar faint pwyllgorau ar waith yn ymarferol.
- 1.6 Cafodd yr argymhellion hynny eu cynnwys yn y ddogfen ymgynghori Cynllunio Cadarnhaol a gyhoeddwyd i gyd-fynd â Bil Drafft Cynllunio (Cymru)³ ym mis Rhagfyr 2013.
- 1.7 Yn dilyn hynny, gwnaed darpariaeth yn adran 37 o Fil Cynllunio (Cymru) a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau a fydd y cyflwyno cynllun dirprwyo cenedlaethol ar gyfer penderfyniadau cynllunio a wneir gan awdurdodau cynllunio lleol, ac a fydd yn pennu maint ac aelodaeth pwyllgorau cynllunio. Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn am yr hyn y bwriedir ei gynnwys yn y rheoliadau hynny.
- 1.8 Rydym hefyd yn awyddus i chi fynegi barn am gyd-fyrddau cynllunio a phaneli cynllunio strategol. Ar hyn o bryd, mae adran 101 o Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth

¹Tuag at Ddeddf Gynllunio i Gymru: Sicrhau System Gynllunio Effeithiol. Adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru gan y Grŵp Cyngori Annibynnol. Mehefin 2012.

²RTPI Cymru. Study into the Operation of Planning Committees in Wales. . Adroddiad Terfynol. Fortismere Associates ar y cyd ag Arup. Gorffennaf 2013.

³Cynllunio Cadarnhaol. - Cynigion i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru. Llywodraeth Cymru. Rhagfyr 2013.

Leol 1972 yn darparu ar gyfer y modd y mae awdurdodau lleol yn cael trefnu i arfer eu swyddogaethau. O dan y ddeddfwriaeth honno, mae pob awdurdod yn cael sefydlu pwyllgor cynllunio neu gydbwyllgor cynllunio drwy drefniant gwirfoddol ag awdurdod cynllunio lleol arall. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd wneud trefniadau o dan adran 2 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i sefydlu cydbwyllgor cynllunio a fydd yn awdurdod cynllunio lleol ar gyfer dwy ardal neu fwy, lle bo'r naill ardal a'r llall yn cynnwys rhan neu'r cyfan o sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru. Byddai hynny bellach yn orfodol.

1.9 Bydd Paneli Cynllunio Strategol yn wahanol i Gyd-fyrddau Cynllunio. Ni fydd Paneli Cynllunio Strategol yn arfer swyddogaethau awdurdod cynllunio lleol ond byddant, yn hytrach, yn gyrrff a gaiff eu sefydlu'n benodol er mwyn paratoi cynlluniau datblygu strategol.

1.10 Dyma drefn y papur ymgynghori hwn:

Adran 2: Protocol Pwyllgorau Cynllunio – Eir ati yn yr adran hon i amlinellu'r gweithdrefnau gwahanol sy'n cael eu harfer gan bwyllgorau cynllunio yng Nghymru, a chyflwynir cynnig Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r gwahaniaethau hynny drwy sefydlu Protocol Cenedlaethol ar gyfer Pwyllgorau Cynllunio.

Adran 3: Pwyllgorau Cynllunio – Mae'r adran hon yn amlinellu sut y mae pwyllgorau cynllunio'n cael eu ffurfio ac yn cydnabod bod pwyllgorau cynllunio yng Nghymru yn amrywio o ran eu maint a'u haelodaeth. Mae'n ystyried yr effaith y mae pwyllgorau cynllunio mawr yn ei chael ar y broses gwneud penderfyniadau ac yn amlinellu cynigion Llywodraeth Cymru i ragnodi maint ac aelodaeth pwyllgorau cynllunio.

Adran 4: Rôl y pwyllgor cynllunio – Ceir crynodeb yn yr adran hon o'r egwyddorion sydd, ym marn Llywodraeth Cymru, yn diffinio rôl pwyllgor cynllunio.

Adran 5: Cynllun Dirprwy Cenedlaethol – Mae'r adran hon yn amlinellu'r amryfal fathau o gynlluniau dirprwy sy'n cael eu defnyddio ledled Cymru ac yn nodi'r effaith y mae'r cynlluniau hynny'n ei chael ar randdeiliaid yn y system gynllunio. Rhoddir crynodeb o gasgliadau'r ymchwili ac amlinellir cynigion Llywodraeth Cymru i wella cysondeb y broses gwneud penderfyniadau.

Adran 6: Cydbfyrddau Cynllunio a Phaneli Cynllunio Strategol – Eir ati yn yr adran hon i ystyried y goblygiadau sy'n gysylltiedig â'r cynigion ym Mil Cynllunio (Cymru) i'r perwyl y bydd cyd-fyrddau cynllunio yn gallu cyflawni holl swyddogaethau awdurdodau cynllunio lleol ac y bydd paneli cynllunio strategol yn gallu paratoi cynlluniau datblygu strategol ar gyfer ardaloedd a fydd yn fwy nag ardal un awdurdod lleol yn unig. Mae'n ystyried sut y gellid mynd ati i strwythuro maint ac aelodaeth y cydbwyllgorau a'r paneli hynny yn unol â'r darpariaethau yn y Bil ar gyfer rhagnodi maint pwyllgorau cynllunio.

Adran 7: **Effaith Ariannol** – Mae'r adran hon yn rhoi golwg cyffredinol ar effaith ariannol y rheoliadau arfaethedig.

Adran 2 - Protocol Pwyllgorau Cynllunio

- 2.1 Dangosodd ymchwil yr RTPI fod cryn anghysondeb rhwng amryfal bwyllgorau cynllunio Cymru o ran y gweithdrefnau y maent wedi'u mabwysiadu. Mae hynny'n peri dryswch ac yn arwain at broses gynllunio sy'n llai tryloyw. Mae hefyd yn tanseilio hyder ynddi. Mae'r gwahaniaethau'n gysylltiedig â materion fel (ond nid ydynt yn gyfyngedig i):

Gofal i Gwsmeriaid

Daeth astudiaeth RTPI Cymru i'r casgliad bod y profiad cyffredinol o fod yn bresennol mewn cyfarfod pwyllgor cynllunio yn gallu peri cryn ddryswch i'r cyhoedd. Awgrymodd y dylid cymryd camau penodol mewn perthynas â rhai agweddau ar brosesau'r pwyllgorau hyn, megis cyhoeddi agendâu, cyflwyniadau clyweledol, arwyddion, a threfn yr ystafell lle cynhelir y cyfarfod.

Gweithdrefnau ar gyfer gwrthdroi argymhellion y swyddogion neu ar gyfer gohirio penderfyniadau.

Mae sut yr eir ati i ohirio penderfyniadau ac i wrthdori argymhellion y swyddogion yn amrywio rhwng yr amryfal awdurdodau cynllunio lleol. Yn ei Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru 2010, mae GVA Grimley⁴ yn argymhell y dylid defnyddio cyfnod pwylo pan fo aelodau am weithredu'n groes i argymhelliad y swyddogion, a hynny er mwyn rhoi amser i aelodau'r pwyllgor ailystyried. Roedd astudiaeth yr RTPI hefyd yn argymhell hynny.

Rôl yr aelodau mewn apêl gynllunio ar ôl i argymhelliad gan swyddog gael ei wrthdroi

Bernir ei bod yn bwysig i aelodau ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb wrth wrthdroi argymhelliad gan swyddog. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa rôl y dylai aelodau ei chwarae yn y broses apelio ar ôl iddynt wrthdroi argymhelliad a wnaed gan swyddog.

Awgrymwyd yn astudiaeth GVA Grimley yn 2010 y dylid ystyried mabwysiadu arfer yr Alban lle mae'n ofynnol i aelodau sy'n gwrthod argymhellion swyddogion amddiffyn eu penderfyniadau mewn apelau heb gymorth swyddogion.

Caniatáu i'r cyhoedd siarad

Os cytunir yn genedlaethol y dylid caniatáu i'r cyhoedd siarad mewn cyfarfodydd cynllunio (roedd gan 22 o'r 25 awdurdod cynllunio lleol drefniadau o'r fath), dylai ymgeiswyr a'r cyhoedd gael yr un hawliau i siarad beth bynnag y bo'r ffiniau gweinyddol. Byddai hynny'n fodd i sicrhau cysondeb a bod gwaith y pwyllgorau'n dryloyw ac yn agored, yn enwedig ar gyfer yr aelodau hynny o'r cyhoedd y gallai ceisiadau effeithio arnynt.

Y broses gwneud penderfyniadau

Argymhellodd astudiaeth yr RTPI y dylid amlinellu trefn weithredu gyffredinol er mwyn rhoi esboniad clir o brosesau gwneud penderfyniadau'r pwyllgorau. Yn gyntaf, byddai'n sicrhau, pan fo aelodau ar fin pleidleisio ar gais, eu bod wedi

⁴Astudiaeth i archwilio'r broses ceisiadau cynllunio yng Nghymru. Adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru gan GVA Grimley 2010

cael yr wybodaeth briodol am bob agwedd ar y cynnig er mwyn iddynt fedru gwneud penderfyniad cytbwys. Yn ail, byddai'n gwneud yn siŵr bod trefn benodol ar gyfer cyfarfodydd pob pwyllgor cynllunio a bod y drefn honno'n cael ei dilyn, gan sicrhau cysondeb ar draws Cymru.

Gweithdrefn ar gyfer ymweliadau safle

Dylai fod gan yr awdurdodau cynllunio lleol weithdrefn glir a chyson ar gyfer pryd a pham y dylid ymweld â safleoedd, a sut y dylid cynnal yr ymweliadau hynny. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae arferion gwahanol i'w gweld mewn awdurdodau gwahanol o ran sut y defnyddir ymweliadau safle, ac mae hynny'n ychwanegu at y gwahaniaethau yn y broses gwneud penderfyniadau.

Rhwymedigaethau o ran hyfforddiant cychwynnol a hyfforddiant parhaus

Argymhellodd astudiaeth yr RTPI y dylai hyfforddiant ar gyfer aelodau fod yn orfodol yn genedlaethol; y dylai pob aelod newydd gael hyfforddiant am y system gynllunio ar ôl cael ei ethol, ac yna hyfforddiant manylach pe bai'n aelod o bwyllgor cynllunio. Dylai'r hyfforddiant hwnnw fod yn seiliedig ar un set genedlaethol o ddeunyddiau, a hynny er mwyn osgoi ymdrech a dyblygu diangen ar ran yr awdurdodau cynllunio lleol pe bai pob un o'r 25 yn mynd ati i baratoi eu deunyddiau hyfforddi eu hunain.

Argymhellodd yr astudiaeth hefyd y dylai hyfforddiant parhaus fod yn orfodol ond na ddylid gorfodi aelodau i fynd i bob un o'r sesiynau hynny, gan dderbyn na fyddai rhai o'r sesiynau o fudd i rai o'r aelodau profiadol. Dylai aelodau gael o leiaf 10 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus bob blwyddyn, ynghyd ag o leiaf hanner diwrnod o hyfforddiant myfyrïol ar ganlyniadau. Os na fydd aelodau'n bodloni'r gofynion hynny, ni ddylent gael eistedd ar y pwyllgor nes y byddant wedi'u bodloni.

Gwahaniaethu rhwng y rôl gwneud penderfyniadau a rôl y cynrychiolydd lleol yng nghyfarfodydd y pwyllgor

Argymhellodd astudiaeth RTPI Cymru y dylai aelodau lleol nad ydynt yn aelodau o'r pwyllgor cynllunio gael siarad yng nghyfarfodydd y pwyllgor hwnnw am geisiadau yn eu hardaloedd lleol. Fodd bynnag, dylent wneud hynny yn ystod y rhan honno o'r broses gwneud penderfyniadau lle caniateir i'r cyhoedd fynegi barn, ac ni ddylent roi'r argraff eu bod yn rhan o'r pwyllgor. Dylid gofyn hefyd i aelodau'r pwyllgor bwyso a mesur a ydynt am weithredu fel aelod lleol a siarad ar ran eu hetholwyr neu barhau i weithredu fel aelod o'r pwyllgor sy'n gwneud y penderfyniad ac yn bwrw'i bleidlais. Pan fyddant yn gweithredu fel aelod lleol, dylent 'gamu i lawr' o 'fwrdd' y pwyllgor a mynd i'r oriel gyhoeddus ar gyfer y ceisiadau hynny lle maent yn awyddus i annerch y pwyllgor ar ran eu hetholwyr.

Cynnwys aelodau wrth drafod ceisiadau mawr yn ystod y cyfnod cyn-ymgeisio neu mewn trafodaethau a gynhelir cyn penderfynu ar gais

Gall trafodaethau cyn-ymgeisio rhwng ymgeisydd posibl ac awdurdod fod o fudd i'r naill ochr a'r llall, ac anogir yr awdurdodau cynllunio lleol i'w cynnal. Ychydig iawn o awdurdodau cynllunio lleol sy'n cynnwys aelodau yn y broses cyn-ymgeisio a dangosodd astudiaeth yr RTPI nad oedd unrhyw un ohonynt wedi paratoi protocol manwl ar gynnwys aelodau.

Cod ymddygiad ar gyfer yr aelodau

Mae rhai o'r codau ymddygiad a fabwysiadwyd yn eithaf hen erbyn hyn ac yn dyddio o 2003 ymlaen. Mae angen diweddarau llawer ohonynt yn sgil cyflwyno Deddf Lleoliaeth 2011. Mae'r Gwasanaeth Cyngtori ar Gynllunio (PAS) wedi paratoi dogfen ganllawiau o'r enw 'Probity in planning for councillors and officers' sy'n darparu protocolau ar gyfer aelodau ar rai o'r materion uchod.

- 2.2 Er mwyn mynd i'r afael â'r gwahaniaethau uchod (fel rhan o'r gwaith o safoni'r system gynllunio yng Nghymru), argymhellodd ymchwil yr RTPI y dylid creu protocol cenedlaethol ar gyfer pwyllgorau cynllunio.
- 2.3 Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad hwn ac mae am geisio sicrhau y bydd modd i bobl ragweld beth fydd yn digwydd mewn pwyllgorau ac yn ystod y broses ymgeisio. Bydd yn gwneud hynny drwy gyflwyno protocol cenedlaethol a thrwy safoni gweithdrefnau fel y bo cysondeb yn y modd y mae pwyllgorau cynllunio'n gweithredu ar draws Cymru.
- 2.4 Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLIC) i ddatblygu'r protocol hwnnw.
- 2.5 Nid oedd Astudiaeth yr RTPI yn argymhell bod angen deddfwriaeth er mwyn cyflwyno protocol cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â hynny. Mae o'r pwys mwyaf bod awdurdodau cynllunio lleol ac aelodau'n perchenogi'r protocol hwnnw. Dylai fod yn set o safonau y byddant yn mynd ati i'w datblygu gyda chymorth Llywodraeth Cymru, gan fynd i'r afael â'r problemau sydd wedi dod i'r amlwg yn y system bresennol. Bydd angen monitro a mireinio'r protocol cenedlaethol wrth i amser fynd heibio felly ni wnaed cais am ddarpariaethau deddfwriaethol er mwyn ei gyflwyno.

Adran 3 - Pwyllgorau Cynllunio

Y Cefndir a'r Sefyllfa Bresennol

- 3.1 Mae adran 70 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn rhoi'r pŵer i awdurdodau cynllunio leol benderfynu ar gais am ganiatâd cynllunio. Mae adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn caniatáu i'r awdurdod lleol drefnu bod ei swyddogaethau, gan gynnwys penderfynu ar gais am ganiatâd cynllunio, yn cael eu cyflawni gan bwyllgor, is-bwyllgor neu drwy eu dirprwyo i un o swyddogion yr awdurdod (Pennaeth y Gwasanaeth / y Prif Swyddog Cynllunio fel arfer yn achos penderfyniadau cynllunio).
- 3.2 Dangosodd ymchwil yr RTPI fod maint ac aelodaeth pwyllgorau cynllunio yng Nghymru yn amrywio'n fawr, o un pwyllgor cynllunio ac arno 11 o aelodau yng Nghyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful i Ddinas a Sir Abertawe sydd â thri phwyllgor cynllunio (sef dau bwyllgor rheoli datblygu ar gyfer ardaloedd penodol, y naill â 35 o aelodau a'r llall â 37, yn ogystal â phwyllgor rheoli a rheolaeth ar ddatblygu sy'n cynnwys pob un o'r 72 o aelodau).
- 3.3 Mae'r tabl isod yn dangos sut y mae maint pwyllgorau cynllunio yn amrywio ledled Cymru.

Tabl 1: Nifer yr aelodau etholedig a maint pwyllgorau cynllunio yng Nghymru.

Awdurdod Cynllunio Lleol	Cyfanswm yr aelodau	Nifer yr aelodau ar y pwyllgor cynllunio
Blaenau Gwent	42	15
Pen-y-bont ar Ogwr	54	17
Caerffili	48	20
Caerdydd	75	12
Conwy	59	17
Sir Ddinbych	47	30
Sir y Fflint	69	21
Gwynedd	75	15
Ynys Môn	30	11
Merthyr Tudful	33	11
Sir Fynwy	43	16
Castell-nedd Port Talbot	63	45
Casnewydd	50	11
Rhondda Cynon Taf	75	75*
Sir Benfro	60	15
Powys	73	20
Abertawe (Y Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth ar Ddatblygu)	72	72
Abertawe (Ardal 1)	72	35
Abertawe (Ardal 2)	72	37
Torfaen	44	16
Bro Morgannwg	47	20
Wrecsam	52	20
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	24	24
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro	18	18
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	18	18

*Gostyngodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf faint ei bwyllgor cynllunio i 18 o aelodau ym mis Mai 2014.

Y Ddadi dros Newid

- 3.4 Dangosodd y dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer adroddiad y Grŵp Cyngori Annibynnol fod maint ac aelodaeth pwyllgorau cynllunio yn amrywio ar draws Cymru. Awgrymodd y Grŵp Cyngori Annibynnol y byddai pwyllgorau cynllunio llai yn fwy priodol, a hynny er mwyn meithrin gwell diwylliant lle mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail gwybodaeth a thystiolaeth. Argymhellodd y dylai corff annibynnol gynnal astudiaeth ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yr amryfal fodelau o bwyllgorau cynllunio sy'n cael eu defnyddio yng Nghymru, a hynny er mwyn gweld pa derfniadau yw'r rhai mwyaf priodol. Argymhellodd hefyd (Argymhelliad 56(b)) y dylid, yn amodol ar ganlyniadau'r astudiaeth, roi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch maint ac aelodaeth pwyllgorau cynllunio, a hynny er mwyn sicrhau bod awdurdodau cynllunio lleol ar draws Cymru yn mabwysiadu'r model gweithredu gorau.

- 3.5 Cynhaliwyd arolwg ymhlith swyddogion cynllunio yn ystod astudiaeth yr RTPI, ac roeddent hwy, yn gyffredinol, yn cytuno y byddai'n well cael pwyllgorau llai, a mwy o drafodaethau o amgylch y bwrdd. Roedd yr awdurdodau hynny a oedd wedi adolygu maint/strwythur eu pwyllgorau cynllunio yn teimlo, at ei gilydd, bod pwyllgor llai yn eu gwneud yn llai plwyfol, yn golygu bod aelodau'n cael eu hyfforddi'n well, bod mwy o gysondeb wrth wneud penderfyniadau, a bod y penderfyniadau hynny'n cael eu gwneud ar sail meini prawf cynllunio. Er hynny, roedd yr aelodau hynny a oedd yn rhan o bwyllgorau mawr neu bwyllgorau llawn yn teimlo bod pwyllgorau llai yn annemocrataidd ac na fyddent yn caniatáu i ddigon o aelodau gael dweud eu dweud.
- 3.6 Ym marn Llywodraeth Cymru, mae pwyllgorau cynllunio mawr yn drwm ar adnoddau, gan gynnwys adnoddau gweinyddol. Mae gofyn hefyd i'r aelodau fynd i gyfarfodydd y pwyllgor, gael eu hyfforddi, darllen er mwyn paratoi ar gyfer y cyfarfodydd, ac astudio'r agendâu. Mae bod yn aelod o'r pwyllgor cynllunio yn gallu effeithio hefyd ar y rôl werthfawr sydd gan yr aelodau, a hynny oherwydd y cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â bod yn aelod o'r pwyllgor hwnnw. Os nad ydynt ar y pwyllgor, mae'n bosibl y bydd ganddynt rôl i'w chwarae o ran siarad o blaid barn benodol cyn i'r pwyllgor cynllunio ystyried y mater, a hefyd o ran ymgychu yn unol â'r farn honno heb y posibilrwydd o gael eu cyhuddo o fod â barn benodol am y cais ac o fod wedi penderfynu arno ymlaen llaw. Wrth i aelodau gflawni'u rôl gwneud penderfyniadau fel rhan o'r pwyllgor cynllunio, rhaid iddynt beidio â'u rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle gallai pobl eraill farnu nad ydynt yn ddiduedd. At hynny, er bod gan aelodau gyfrifoldeb i'w hetholwyr, i'r gymuned ehangach, hynny yw, yr awdurdod cyfan, y mae eu prif ddyletswydd fel aelod o'r pwyllgor cynllunio. Gall tensiynau godi rhwng y rôl sydd gan aelodau o ran amddiffyn buddiant cyffredinol y cyhoedd a'u rôl o ran cynrychioli safbwyntiau'r gymuned.
- 3.7 Dangosodd yr ymchwil, yn gyffredinol, po fwyaf y pwyllgor, yr isaf, ar gyfartaledd, oedd y lefelau presenoldeb. O'r herwydd, mae gan Lywodraeth Cymru bryderon am y diffyg dilyniant yn aelodaeth y pwyllgorau mwy o faint ac yn sgil hynny, am y diffyg cysondeb yn y broses gwneud penderfyniadau. Mae defnyddio aelodau dirprwyol hefyd yn effeithio ar gysondeb y broses honno. Mae'n bosibl na fydd aelodau dirprwyol wedi cael digon o hyfforddiant iddynt fedru deall y materion a drafodir ac i wneud penderfyniad cadarn sy'n seiliedig ar ystyriaethau cynllunio perthnasol.
- 3.8 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai pwyllgorau llai nid yn unig yn helpu i fynd i'r afael â'r materion hynny ond hefyd yn golygu y byddai modd targedu hyfforddiant yn well, gan arwain at bwyllgorau mwy cadarn a fyddai wedi cael eu hyfforddi'n well. Drwy greu grŵp o gynghorwyr a fyddai'n meddu ar yr wybodaeth a'r sgiliau priodol i wneud gwell penderfyniadau er budd ehangach y cyhoedd, dylai fod modd hyrwyddo diwylliant lle mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail gwell gwybodaeth a thystiolaeth. Felly, mae'n debyg y byddai pwyllgorau cynllunio llai yn arwain at wasanaeth cynllunio cyson, tecach a mwy tryloyw.
- 3.9 Mae'r newidiadau hyn yn rhoi mwy o hyder i'r diwydiant datblygu ac i gymunedau lleol bod gan holl bwyllgorau cynllunio'r awdurdodau cynllunio lleol y gallu i

drafod ac i asesu cynigion datblygu cymhleth ac yna i wneud penderfyniadau cytbwys a phrydlon.

Yr hyn yr ydym yn ei gynnig

- 3.10 Yn dilyn yr argymhelliad a wnaed yn astudiaeth yr RTPI, cynigir bod pwyllgorau cynllunio yng Nghymru yn cael eu strwythuro ac yn gweithredu fel a ganlyn.

Maint y pwyllgor

Dylai'r pwyllgor cynllunio gynnwys o leiaf 11 o aelodau ac uchafswm o 21 o aelodau ond dim mwy na 50% o aelodau'r awdurdod (ac eithrio Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)

- 3.11 Mae angen sicrhau cydbwysedd wrth benderfynu ar faint priodol pwyllgor cynllunio. Mae'n bwysig nad yw'n rhy fawr, a hynny am y rhesymau a grybwyllir uchod. Fodd bynnag, os yw'r pwyllgor cynllunio yn rhy fach, gall arwain at sefyllfa lle mae penderfyniadau pwysig sy'n rhai strategol yn lleol yn cael eu gwneud gan ychydig iawn o aelodau'r awdurdod cynllunio lleol. Nid yw ychwaith yn caniatáu ar gyfer achlysuron pa fo aelodau'n absennol neu pa fo angen iddynt ddatgan buddiant mewn eitem benodol.
- 3.12 Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ag argymhelliad RTPI Cymru, sef y byddai'n well pennu ystod lle gall awdurdodau cynllunio lleol ddewis maint sy'n briodol i'w hamgylchiadau hwy fel y bo modd adlewyrchu'n well y gwahaniaethau rhwng yr awdurdodau o ran eu maint ac fel y bo'r modd y dosberthir lleoedd ar y pwyllgor yn adlewyrchu cyfansoddiad gwleidyddol yr awdurdod. Ar sail ymchwil yr RTPI, cynigir isafswm o 11 o aelodau ac uchafswm o 21.
- 3.13 Cynigir hefyd, yn achosy Parciau Cenedlaethol, na fyddai'n gymwys ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgor cynllunio beidio â chynnwys mwy na 50% o aelodau'r awdurdod, a hynny oherwydd bod ganddynt lai o aelodau.

CWESTIWN 1: Ydych chi'n cytuno y dylid cyfyngu maint y pwyllgor cynllunio i isafswm o 11 o aelodau ac uchafswm o 21 o aelodau?

Wardiau lle mae mwy nag un aelod

Os oes gan wardiau fwy nag un aelod etholedig, dim ond un ohonynt ddylai eistedd ar y pwyllgor cynllunio, a hynny er mwyn caniatáu i rai o'r aelodau ysgwyddo'r rôl o gynrychioli buddiannau'r gymuned leol.

- 3.14 Pan fo aelodau'n cymryd rhan ym mhrosesau'r pwyllgor cynllunio yn rhinwedd eu rôl fel cynrychiolwyr lleol, mae'r broses ddemocrataidd yn cael ei hadlewyrchu yn y system gynllunio. Gall aelodau chwarae rhan mewn materion cynllunio yn eu rôl fel cynrychiolwyr lleol heb y cyfyngiadau penodol sy'n gysylltiedig â bod yn aelod o'r pwyllgor cynllunio, a gallant hefyd ymgyrchu ar faterion sy'n effeithio ar eu hetholwyr. Yn y wardiau hynny lle mae'r holl aelodau lleol ar y pwyllgor

cynllunio, mae'n anos iddynt gyflawni'r rôl gynrychioliadol honno, er anfantais i'w hetholwyr ac i gynwysoldeb democrataidd.

CWESTIWN 2: Os oes gan wardiau fwy nag un aelod etholedig, ydych chi'n cytuno mai dim ond un ohonynt ddylai eistedd ar y pwyllgor cynllunio?

Cworwm

Cyflwyno cworwm ar gyfer gwneud penderfyniadau (50% o aelodau'r pwyllgor)

- 3.15 Os cyfyngir ar faint pwyllgorau cynllunio, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad yn astudiaeth yr RTPI i'r perwyl bod yn rhaid cael cworwm cyn gwneud penderfyniadau. Os yw'r pwyllgor yn un bach, mae angen sicrhau bod digon o aelodau'n bresennol i drafod y materion cynllunio a gwneud penderfyniadau cyson ar geisiadau cynllunio. Cynigir, felly, bod yn rhaid wrth gworwm o 50% o aelodau'r pwyllgor cyn y gellir gwneud penderfyniadau. Os yw cyfanswm aelodau'r pwyllgor yn odrif, byddai'r cworwm yn 50% o holl aelodau'r pwyllgor plws un.

CWESTIWN 3: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno cworwm o 50% (wedi'i dalgrynnu os yw cyfanswm aelodau'r pwyllgor yn odrif) ar gyfer gwneud penderfyniadau?

Aelodau Dirprwyol

Gwahardd aelodau dirprwyol

- 3.16 Yn ymarferol, mae rhai awdurdodau'n caniatáu i aelodau eraill ddirprwyo mewn cyfarfodydd ar ran aelodau'r pwyllgor cynllunio. Argymhellir, yn unol ag ymchwil yr RTPI, y dylid eu hatal rhag defnyddio aelodau dirprwyol.
- 3.17 Gellid dadlau bod modd camddefnyddio'r system drwy ddirprwyo'n fwriadol. Mae'n bosibl hefyd na fydd aelod dirprwyol wedi cael hyfforddiant o'r safon uchel a gynigir yn y papur hwn. At hynny, gall anghysonderau godi o ran aelodaeth pwyllgor pan gaiff ceisiadau eu gohirio tan gyfarfod diweddarach. Mae hynny'n arwain at anghysondeb wrth wneud penderfyniadau. Cynigir felly y bydd rheoliadau'n darparu ar gyfer atal yr arfer o ddefnyddio aelodau dirprwyol.

CWESTIWN 4: Ydych chi'n cytuno y dylid gwahardd defnyddio aelodau dirprwyol ar y pwyllgor cynllunio?

Effaith y Rheoliadau Arfaethedig

- 3.18 Gwnaed darpariaeth ym Mil Cynllunio (Cymru) a fydd yn galluogi awdurdodau lleol (os dyna'u dewis) i ddirprwyo pwerau gwneud penderfyniadau i

is-bwyllgorau. Gallai strwythurau pwyllgor sy'n seiliedig ar ardaloedd, fel y rheini sydd gan Ddinas a Sir Abertawe, barhau felly, ond bydd yn rhaid i faint ac aelodaeth y pwyllgorau / is-bwyllgorau hynny gydymffurfio â'r gofynion a ragnodir yn y rheoliadau.

3.19 Mae maint pwyllgorau cynllunio yn awdurdodau cynllunio lleol Cymru wedi amrywio'n fawr dros y blynyddoedd, a gwelwyd cynnydd a gostyngiadau yn nifer yr aelodau. Yn fwy diweddar, mae Cyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf wedi newid o bwyllgor cynllunio a oedd yn cynnwys holl aelodau'r awdurdod i bwyllgor â 18 o aelodau. Mae hynny'n cyd-fynd â'r strwythur sy'n cael ei gynnig gan Lywodraeth Cymru.

3.20 Cydnabyddir y bydd y rheoliadau arfaethedig yn golygu y bydd angen i nifer bach o awdurdodau cynllunio lleol fabwysiadu arferion newydd, gan newid strwythur eu pwyllgorau cynllunio. Er hynny, mae'r rheoliadau'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y strwythur y nodwyd ei fod yn un effeithlon ac effeithiol ac sy'n cael ei ddefnyddio eisoes gan nifer o'r awdurdodau cynllunio lleol, yn cael ei gadw.

3.21 I gloi, felly, mae'r Llywodraeth am gyflwyno rheoliadau a fydd yn cyfyngu ar faint ac ar aelodaeth pwyllgorau cynllunio. Cynigir mai dyma fydd yn y rheoliadau:

- **Dylai'r pwyllgor cynllunio gynnwys o leiaf 11 o aelodau ac uchafswm o 21 o aelodau (ond dim mwy na 50% o aelodau'r awdurdod – ac eithrio Awdurdodau Parciau Cenedlaethol)**
- **Os oes gan wardiau fwy nag un aelod etholedig, dim ond un ohonynt ddylai eistedd ar y pwyllgor cynllunio, a hynny er mwyn caniatáu i rai o'r aelodau ysgwyddo'r rôl o gynrychioli buddiannau'r gymuned leol.**
- **Cyflwyno cworwm o 50% o aelodau'r pwyllgorar gyfer gwneud penderfyniadau**
- **Gwahardd defnyddio aelodau dirprwyol**

Adran 4 - Rôl y Pwyllgor Cynllunio

- 4.1 Mae'n hanfodol bod rôl y pwyllgor cynllunio o ran gwneud penderfyniadau rheoli datblygu yn cael ei diffinio'n glir er mwyn pennu pa fath o geisiadau y dylid eu dirprwyo i swyddogion, a bod hynny wedyn yn gonglfaen i'r cynllun dirprwyo cenedlaethol.
- 4.2 Ar hyn o bryd, mae rôl y pwyllgor cynllunio o ran gwneud penderfyniadau rheoli datblygu yn cael ei phenderfynu ar lefel leol. Pennir cyfrifoldebau'r pwyllgor yng nghynlluniau dirprwyo pob awdurdod cynllunio lleol.
- 4.3 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn na ddylai pwyllgorau cynllunio ymdrin â chynigion datblygu ar raddfa fach, nad ydynt yn rhai dadleuol. Byddai'n fwy effeithlon i swyddogion ystyried ceisiadau o'r fath yn unol â'r trefniadau dirprwyo. Mae o'r farn mai dyma rôl y pwyllgor:

Gweithredu'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd drwy wneud penderfyniadau strategol yn lleol gan benderfynu ar y ceisiadau hynny:

1. sy'n cael eu hystyried yn ddatblygiadau mawr;
2. sy'n codi materion polisi sy'n effeithio ar sut mae'r cynllun datblygu yn cael ei weithredu, megis ceisiadau sy'n gwyro oddi wrth y cynllun a fabwysiadwyd;
3. pan fo gan gymuned fuddiant mesuradwy mewn datblygiad a bod y buddiant hwnnw'n fwy na diogelu buddiannau preifat un person, neu grŵp o bobl, ar draul gweithgareddau pobl eraill.

CWESTIWN 5: Ydych chi'n cytuno â rôl rheoli datblygu'r pwyllgor cynllunio fel y'i hamlinellir uchod?

Adran 5 – Y Cynllun Dirprwyo Cenedlaethol

Y Cefndir a'r Sefyllfa Bresennol

- 5.1 Gall cais cynllunio gael ei benderfynu gan naill ai'r aelodau etholedig yng nghyfarfodydd y pwyllgor cynllunio, neu drwy ei ddirprwyo, lle bo aelodau yn cytuno bod person a benodir (fel arfer pennaeth y gwasanaeth/y prif swyddog cynllunio) yn cael gwneud penderfyniad cynllunio ar ran yr awdurdod.
- 5.2 Mae cynllun dirprwyo awdurdodau cynllunio lleol yn rhan o gyfansoddiad y cyngor ac mae'n nodi'r amgylchiadau lle bydd cais cynllunio yn cael ei benderfynu gan bwyllgor cynllunio. Mae hefyd yn nodi'r amgylchiadau lle gall y prif swyddog cynllunio neu rywun ar lefel gyfatebol benderfynu ar gais o dan bwerau dirprwyedig. Mae'r amgylchiadau hynny fel arfer yn ymwneud â materion megis y math o ddatblygiad, nifer y gwrthwynebiadau a ddaw i law, a phwy sy'n cyflwyno'r cais.
- 5.3 Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau dirprwyo yn caniatáu i aelodau lleol wneud cais ffurfiol i'r pwyllgor cynllunio benderfynu ar gais cynllunio penodol yn eu ward a fyddai fel arall wedi'i ddirprwyo i swyddog (sef yr hyn a elwir yn 'galw i mewn'). Hefyd, fel arfer, mae'r cynllun dirprwyo'n caniatáu i'r prif swyddog cynllunio gyfeirio unrhyw gais i'r pwyllgor os yw'n tybio bod angen i bwyllgor ei ystyried (er enghraifft, oherwydd ei fod yn ddadleuol neu'n effeithio ar yr awdurdod cyfan).
- 5.4 Mae rhai awdurdodau cynllunio lleol yn defnyddio cynllun dirprwyo lle mae angen cyfeirio rhai ceisiadau at gadeirydd y pwyllgor cynllunio neu'r panel dirprwyo er mwyn iddo benderfynu a oes angen i'r ceisiadau hynny gael eu hystyried gan y pwyllgor cynllunio ai peidio. Gall hynny gynnwys "ceisiadau gan aelodau i alw cais i mewn" sy'n golygu bod y penderfyniad terfynol, o ran ai swyddogion o dan bwerau dirprwyedig neu bwyllgor cynllunio ddylai benderfynu ar y cais, yn cael ei roi yn nwylo cadeirydd y pwyllgor.

Y ddadl dros newid

- 5.5 Mae gwahaniaethau sylweddol yn y meini prawf sy'n nodi pa geisiadau sy'n cael eu penderfynu gan bwyllgor a pha rai sy'n cael eu penderfynu o dan bwerau dirprwyedig. Mae Atodiad 1 yn rhoi dadansoddiad o'r meini prawf sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd gan yr awdurdodau cynllunio lleol yn eu cynlluniau dirprwyo. Mae'n amlwg, fodd bynnag, bod y rhan fwyaf o'r cynlluniau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i geisiadau sy'n bodloni'r meini prawf canlynol gael eu penderfynu gan bwyllgor:
 - Bod aelodau wedi gofyn i'r cais gael ei alw i mewn
 - Ceisiadau sy'n gwyro oddi wrth / yn groes i'r cynllun datblygu (lle bo swyddogion yn argymhell eu cymeradwyo)
 - Y Prif Swyddog / Pennaeth Cynllunio yn penderfynu cyfeirio'r cais at y pwyllgor
 - Bod gan un o weithwyr yr awdurdod cynllunio lleol / aelod o'r cyngor fuddiant ariannol neu fuddiant tebyg yn y cais.

- 5.6 Mae cynlluniau dirprwyo yn anghyson, ac mae hynny'n peri ansicrwydd i ymgeiswyr a datblygwyr, yn enwedig ymhlith y rheini sy'n gweithio ar draws ardaloedd sawl awdurdod cynllunio lleol.
- 5.7 Mewn ymateb i'r anghysonderau hyn, argymhellodd adroddiad y Grŵp Cyngori Annibynnol y dylai Gweinidogion Cymru gael y pŵer drwy reoliadau i bennu cynllun dirprwyo cenedlaethol. Byddai hynny'n sicrhau cysondeb ledled Cymru o ran penderfynu ar geisiadau, fel y bo'r un math o geisiadau yn cael eu hystyried ar yr un lefel ar draws y wlad.
- 5.8 Roedd astudiaeth y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru (RTPI Cymru) o blaid yr argymhellion a wnaed yn adroddiad y Grŵp Cyngori Annibynnol. O ystyried cymhlethdod y cynlluniau a astudiwyd gan yr RTPI, yr amrywiadau rhyngddynt, yn ogystal â'r gwahaniaethau mawr o ran y ffordd y cânt eu rheoli, daeth i'r casgliad bod angen cynllun cenedlaethol clir a syml.
- 5.9 Argymhellodd adroddiad y Grŵp Cyngori Annibynnol ac astudiaeth yr RTPI y dylai'r un mathau o geisiadau gael eu hystyried ar lefel y pwyllgor ar draws Cymru, ac mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r farn honno.
- 5.10 Mae dirprwyo'r cyfrifoldeb o wneud penderfyniadau i swyddogion yn fanteisiol i bob rhanddeiliad gan y bydd yn symleiddio'r gweithdrefnau ac yn rhyddhau aelodau pwyllgorau i ganolbwyntio ar faterion polisi pwysig neu achosion dadleuol. Bydd yn cael gwared ar geisiadau na fyddai angen iddynt gael eu trafod na'u gwerthuso gan aelodau mewn pwyllgor. Pan nad oes angen aros am gyfarfod a phenderfyniad y pwyllgor, gellir arbed amser wrth ddelio â cheisiadau cynllunio. Felly, mae dirprwyo yn broses gadarnhaol sydd â manteision, nid yn unig o ran symleiddio gweithdrefnau mewnol, ond hefyd o ran gwella pa mor gyflym yr ymdrinnir â cheisiadau.
- 5.11 Ni ddylai'r pwyllgor cynllunio fod yn ymdrin â niferoedd mawr o gynigion ar gyfer datblygiadau bach, yn enwedig ceisiadau datblygu gan ddeiliaid tai, nad ydynt yn caelf fawr o effaith ar yr ardal ehangach. Dylai'r cynllun dirprwyo cenedlaethol sicrhau bod yna ffordd syml o benderfynu ar geisiadau bach a'r rheini sy'n cydymffurfio â'r cynllun datblygu gan fod sefyllfa'r cyngor o ran polisi wedi ei nodi eisoes yn y cynllun datblygu. Bydd hynny eto yn sicrhau effeithlonrwydd a chysondeb wrth wneud penderfyniadau.
- 5.12 Mae'n bwysig bod y cynllun dirprwyo cenedlaethol yn sicrhau bod y math cywir o gais yn cael ei benderfynu ar y lefel benderfynu gywir, gan adlewyrchu pa mor gymhleth yw'r cais ac i ba raddau y mae'n cydymffurfio â'r polisi. Dylai'r rhan fwyaf o geisiadau gael eu penderfynu gan swyddogion o dan bwerau dirprwyedig, a dim ond achosion eithriadol y dylid eu cyfeirio at y pwyllgor, hynny yw, datblygiadau mawr, y rheini sy'n codi materion polisi a fyddai'n effeithio ar sut mae'r cynllun datblygu yn cael ei weithredu, neu'r rheini y mae gan y cyhoedd fuddiant ynddynt.
- 5.13 Mae'n debygol y bydd arbedion posibl o ran cost yn sgil dirprwyo mwy o benderfyniadau. Mae ymchwil yn awgrymu ei bod, ar gyfartaledd, yn costio

ddwywaith cymaint i brosesu cais drwy bwyllgor cynllunio na chais sy'n cael ei benderfynu o dan bwerau dirprwyedig. Mae penderfyniad dirprwyedig yn costio £536 i awdurdod cynllunio lleol o'i gymharu ag £1,201 am benderfyniad gan bwyllgor⁵.

Ein Cynigion

- 5.14 Yn unol ag argymhellion adroddiad y Grŵp Cyngori Annibynnol ac astudiaeth RTPI Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno cynllun dirprwy cenedlaethol gorfodol. Byddai hynny'n sicrhau gwell cysondeb o ran gwneud penderfyniadau ar draws Cymru. Bydd cynllun dirprwy cenedlaethol yn cael ei ragnodi fel y bo'r un math o gais cynllunio yn cael ei drin yn yr un ffordd (hynny yw, drwy bwyllgor neu o dan bwerau dirprwyedig) ar draws Cymru.
- 5.15 Er bod Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r egwyddor o sefydlu cynllun dirprwy cenedlaethol, nid ydym yn cytuno â strwythur y cynllun a argymhellir gan yr RTPI.
- 5.16 Yn ôl yr argymhellion yn astudiaeth yr RTPI, dylid cyflwyno cynllun dirprwy cenedlaethol gorfodol i Gymru a fyddai'n cael ei gynnwys mewn cynlluniau lleol, ei adolygu'n rheolaidd (o leiaf bob tair blynedd), a'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Byddai'r cynllun yn cynnwys ceisiadau ar gyfer datblygiadau 'arwyddocaol'; mater i'r awdurdodau lleol fyddai penderfynu ar y diffiniad o 'arwyddocaol'.
- 5.17 Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r dull a argymhellir. Yn gyntaf oll, os yw cynlluniau lleol yn parhau, mae caniatáu amrywiadau unigol rhyngddynt (yn enwedig mewn perthynas ag ystyr datblygiad arwyddocaol) yn groes i'r prif nod o gyflwyno cynllun dirprwy cenedlaethol – sef sicrhau cysondeb yn y ffordd y mae'r gwahanol fathau o geisiadau yn cael eu hystyried ar draws Cymru. Byddai'r dull hwn yn cyfyngu'n ddifrifol ar botensial a dylanwad y cynllun dirprwy cenedlaethol, ac ni fyddai'n mynd i'r afael â'r problemau presennol a nodwyd o ran sut y caiff penderfyniadau eu gwneud.
- 5.18 Yn ail, o ran yr argymhelliad bod cynlluniau lleol yn cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, penderfynwyd peidio â bwrw ymlaen â'r argymhelliad hwnnw, er mwyn gwneud yn siŵr bod y cynllun dirprwy cenedlaethol yn sicrhau cysondeb ar draws Cymru.
- 5.19 Un o argymhellion eraill astudiaeth yr RTPI oedd gosod targed a fyddai'n gweld 95% o geisiadau yn cael eu penderfynu o dan bwerau dirprwyedig. Tra bydd strwythur y cynllun dirprwy cenedlaethol yn seiliedig ar lefel uchel o ddirprwy, nid yw gosod targed yn cael ei ystyried yn fanteisiol; drwy ragnodi'r trefniadau dirprwy yn genedlaethol, byddai Llywodraeth Cymru yn dileu gallu awdurdod cynllunio lleol i reoli nifer y penderfyniadau y mae'n eu dirprwy.

⁵ Planning Service Benchmarking Club 2011: Cyngor Dinas Barchester, Adroddiad PAS/CIPFA, Chwefror 2012

Y strwythur a'r cynnwys arfaethedig

- 5.20 Bydd y cynllun dirprwyo cenedlaethol yn cynnwys yr holl geisiadau am ganiatâd cynllunio llawn ac amlinellol, a'r holl geisiadau i gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl a wneir o dan Ran 3 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, hynny yw, rhan helaeth o lwyth gwaith presennol y pwyllgorau cynllunio. Ni fydd y rheoliadau yn rhagnodi sut y bydd awdurdod cynllunio lleol yn gwneud penderfyniadau o ran ei swyddogaethau eraill (megis cyflawni amodau cynllunio, gorfodi, Gorchymyn Cadw Coed etc). Materion i'w penderfynu gan bob awdurdod unigol fydd y rhain. O'r herwydd, rhagwelir y bydd y cynllun dirprwyo cenedlaethol yn rhan o gyfansoddiad ehangach yr awdurdod.
- 5.21 Yn ôl ymchwil a wnaed i'r cynlluniau dirprwyo presennol a fabwysiadwyd gan bob awdurdod cynllunio lleol, mae dwy ffordd wahanol o strwythuro cynllun dirprwyo. Y cyntaf yw'r dull "rhestru eithriadau", lle rhoddir y pŵer i swyddogion awdurdod cynllunio lleol benderfynu ar bob cais cynllunio oni bai ei fod yn dod o dan un o'r eithriadau diffiniedig sydd wedi'u rhestru yn y cynllun. Mae'r ail ddull yn cynnwys nodi pob math o gais cynllunio i'w benderfynu gan swyddogion a phob math i'w benderfynu gan bwyllgor.
- 5.22 Argymhellodd astudiaeth RTPI Cymru y dylai'r cynllun dirprwyo cenedlaethol fabwysiadu'r dull "rhestru eithriadau", a dyma'r dull y mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ei fabwysiadu. Yn y lle cyntaf, bydd y dull hwn yn sicrhau mai swyddogion fydd yn penderfynu ar bob cais cynllunio heblaw am rai eithriadau.
- 5.23 O ystyried yr ymchwil, a rôl y pwyllgor cynllunio fel y'i diffinnir yn adran 4, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai'r cynllun dirprwyo cenedlaethol gynnwys yr eithriadau canlynol:
1. Ceisiadau sy'n gwyro oddi wrth/yn groes i'r cynllun datblygu (lle bo swyddogion yn bwriadu eu cymeradwyo)
 2. Ceisiadau lle mae angen cynnal Asesiad Effaith Amgylcheddol (EIA)
 3. Bod gan un o weithwyr yr awdurdod cynllunio lleol/aelod o'r cyngor fuddiant yn y cais
 4. Ceisiadau sy'n mynd y tu hwnt i drothwy datblygu penodedig
 5. Ceisiadau sy'n mynd y tu hwnt i drothwy gwrthwynebu penodedig
 6. Bod aelod wedi gofyn i'r cais gael ei alw i mewn

Y Meini Prawf Arfaethedig:

Ceisiadau sy'n gwyro oddi wrth/yn groes i'r cynllun datblygu (ac y bwriedir eu cymeradwyo)

- 5.24 Mae'r holl gynlluniau dirprwyo presennol yn darparu mai'r pwyllgor fydd yn penderfynu ar bob cynnig datblygu sy'n gwyro oddi wrth y polisiâu yn y cynllun. Yn ôl diffiniad Llywodraeth Cymru ym mharagraff 4.3, prif gyfrifoldeb y pwyllgor cynllunio yw gweithredu'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd ar gyfer yr awdurdod cynllunio lleol hwnnw. Mae ceisiadau sy'n gwyro oddi wrth y cynllun datblygu yn gallu llesteirio'r modd y mae nodau strategol awdurdodau yn cael eu gweithredu. Maent hefyd yn gallu effeithio ar uniondeb y cynllun datblygu. Y pwyllgor cynllunio ddylai benderfynu ar geisiadau o'r fath fel y bo modd eu trafod yn llawn

ac yn gyhoeddus ac fel eu bod yn cael eu cymeradwyo gan aelodau a etholwyd i fod yn atebol am y penderfyniadau hynny. Cynigir, felly, y dylid cynnwys yr eithriad hwn yn y cynllun dirprwyo cenedlaethol. Cynigir bod pob cais sy'n groes i'r cynllun datblygu lleol a fabwysiadwyd ac yr argymhellir ei fod yn cael ei gymeradwyo, yn cael ei gyfeirio at y pwyllgor cynllunio.

CWESTIWN 6: Ydych chi'n cytuno bod angen cynnwys yr eithriad sy'n ei gwneud yn ofynnol i bwyllgor cynllunio gymeradwyo ceisiadau sy'n groes i'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd ac yr argymhellir eu bod yn cael eu cymeradwyo? Os nad ydych, eglurwch y rhesymau pam.

Ceisiadau lle mae angen Asesiad Effaith Amgylcheddol (EIA)

- 5.25 Mae'n rhaid cynnal EIA ar gyfer prosiectau sy'n debygol o effeithio'n sylweddol ar yr amgylchedd oherwydd eu natur, eu maint neu eu lleoliad. Mae materion cymhleth yn gysylltiedig â cheisiadau o'r fath ac mae gofyn i'r awdurdod cynllunio lleol eu hystyried yn ofalus.
- 5.26 Yn ôl eu natur, mae datblygiadau EIA yn rhai mawr ac felly'n gydnaws â phrif rôl y pwyllgor cynllunio fel y'i diffinnir ym mharagraff 4.3.

CWESTIWN 7: Ydych chi'n cytuno bod angen cynnwys eithriad sy'n ei gwneud yn ofynnol i bwyllgor cynllunio benderfynu ar bob cais y mae angen EIA ar ei gyfer? Os nad ydych, eglurwch y rhesymau pam.

Bod gan un o weithwyr yr awdurdod cynllunio lleol/aelod o'r cyngor fuddiant yn y cais

- 5.27 Er mwyn sicrhau tryloywder, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod hi'n bwysig bod y cynllun dirprwyo cenedlaethol yn cynnwys eithriad ar gyfer ceisiadau a wneir gan aelodau neu staff y cyngor sy'n gysylltiedig â phenderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae cynigion a gyflwynir gan gyn gynghorwyr a swyddogion, a'r rheini sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd, yn ogystal â'u cydweithwyr agos a'u perthnasau, yn gallu arwain at honiadau o amhriodoldeb. Dylid ymdrin â chynigion o'r fath mewn modd sy'n sicrhau nad oes unrhyw sail i honiadau o ffafriaeth. Mae'r eithriad hwn wedi'i gynnwys yn y rhan fwyaf o'r cynlluniau dirprwyo, er bod cwmpas yr eithriad yn amrywio.
- 5.28 Bwriad Llywodraeth Cymru yw bod yr eithriad hwn yn berthnasol i bob cais a wneir gan aelodau o'r Cyngor a holl staff cyfredol yr awdurdod cynllunio lleol sy'n gysylltiedig â phrosesu ceisiadau. Bydd yr eithriad hwn hefyd yn berthnasol i gymar neu bartner unrhyw un o'r personau hynny.
- 5.29 Er mwyn sicrhau na fyddai hynny'n cael unrhyw effaith anghymesur, cynigir mai dim ond os oes un neu fwy o wrthwynebiadau cynllunio perthnasol yn dod i law o fewn y cyfnod ymgynghori penodol y byddai ceisiadau a gyflwynir gan y personau a nodir uchod yn cael eu tynnu o'r broses dirprwyo a'u cyfeirio at y pwyllgor cynllunio. Er mai nod yr eithriad hwn yw sicrhau tryloywder, nid oes

angen i bwyllgor cynllunio benderfynu ar geisiadau nad yw'r cyhoedd yn mynegi unrhyw ddiddordeb ynddynt. Ystyrir bod un gwrthwynebiad perthnasol yn ddigon o ddiddordeb cyhoeddus i gyfiawnhau penderfyniad gan bwyllgor er mwyn sicrhau tryloywder.

CWESTIWN 8: Ydych chi'n cytuno bod angen cynnwys eithriad sy'n ymwneud â cheisiadau a wneir gan aelodau a staff awdurdodau cynllunio lleol a'u gŵyr/gwagedd, partneriaid a pherthnasau agos? Os nad ydych, eglurwch y rhesymau pam.

Y trothwy datblygu

- 5.30 Mae maint datblygiad yn cael effaith o ran a yw cais yn cael ei ddirprwyo i swyddogion benderfynu arno ai peidio. Gwneir darpariaeth yn hyn o beth mewn 14 o gynlluniau dirprwyo presennol yr awdurdodau cynllunio lleol. Mae trothwyon datblygu o'r fath yn cael eu gosod ar hyn o bryd gan bob awdurdod unigol ac maent yn amrywio'n fawr ar draws Cymru.
- 5.31 Ar hyn o bryd, y trothwy datblygu a ddefnyddir gan chwech o'r awdurdodau cynllunio lleol yw'r diffiniad o 'ddatblygiad mawr' fel y'i rhagnodir yn erthygl 2 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012. Mae'r diffiniad hwnnw'n cynnwys:
- a) ennill a gweithio mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion o weithfeydd mwynau;
 - b) datblygiad gwastraff;
 - c) darparu tai annedd—
 - i. pan fo nifer y tai annedd sydd i'w darparu yn 10 neu ragor;
 - ii. pan fwriedir cyflawni'r datblygiad ar safle sydd â'i arwynebedd yn 0.5 hectar neu'n fwy ac nad yw'n hysbys a yw'r datblygiad yn dod o fewn is-baragraff (c)(i);
 - ch) darparu adeilad neu adeiladau lle mae'r arwynebedd llawr y bwriedir ei greu gan y datblygiad yn 1,000 metr sgwâr neu ragor; neu
 - d) datblygiad a gyflawnir ar safle sydd â'i arwynebedd yn 1 hectar neu'n fwy.
- 5.32 Mae gan ddau awdurdod cynllunio lleol drothwyon datblygu ar gyfer datblygiadau preswyl sy'n cynnwys rhwng 2 a 5 uned. Mae trothwy datblygu un awdurdod cynllunio lleol yn seiliedig ar arwynebedd y safle ac mae un awdurdod arall yn gwahaniaethu rhwng datblygu ar safleoedd a neilltuwyd (10 uned) a safleoedd mewnlenni (2 uned).
- 5.33 Ar hyn o bryd, nid oes gan ddeuddeg awdurdod cynllunio lleol drothwy datblygu yn eu cynllun dirprwyo. Mae gan bob un o'r awdurdodau hynny eithriadau eraill, megis cyfeirio at y Prif Swyddog, trothwyon o ran nifer y gwrthwynebiadau, a bod aelodau'n galw ceisiadau i mewn. Byddent yn cynnwys ceisiadau ar gyfer datblygiadau mawr ac yn sicrhau mai'r pwyllgor cynllunio fyddai'n penderfynu arnynt.

- 5.34 Fel y gellid ei ddisgwyl oherwydd ei natur drefol a'i gryfder economaidd, mae Cyngor Dinas Caerdydd yn dirprwyo ceisiadau am ddatblygiadau sy'n fwy na'r hyn a ddiffinnir fel datblygiad mawr yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012. Mae swyddogion yn gallu penderfynu ar geisiadau am hyd at 20 o unedau preswyl ac am ddatblygiadau amhreswyl lle y byddai arwyneb y llawr a grëid gan y datblygiad yn uchafswm o 2,000 o fetrau sgwâr.
- 5.35 Nid dim ond Caerdydd sydd â phwerau dirprwyedig i benderfynu ar geisiadau am ddatblygiadau preswyl sy'n fwy na'r hyn a ddiffinnir fel datblygiad mawr yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012. Mae gan swyddogion yng Nghyngor Sir Penfro awdurdod dirprwyedig i benderfynu ar geisiadau ar gyfer hyd at 30 o unedau.
- 5.36 Awgrymodd yr ymchwil gan RTPI Cymru y gallai'r amrywiadau hyn o ran trothwyon datblygu adlewyrchu natur yr ardal leol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y berthynas rhwng aelodau a swyddogion yn gallu cael ei hadlewyrchu hefyd yn y lefelau dirprwyo. Nid oes un rheswm syml am yr amrywiadau hynny. Mae'r anghysonderau yn y cynlluniau dirprwyo yn achosi ansicrwydd i ymgeiswyr a datblygwyr, yn enwedig ymhlith y rheini sy'n gweithio ar draws ardaloedd sawl awdurdod cynllunio lleol. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r farn a fynegir yn adroddiad y Grŵp Cyngori Annibynnol ac astudiaeth RTPI Cymru sef y dylai'r un math o gais gael ei ystyried ar yr un lefel ar draws Cymru.
- 5.37 Fel yr amlinellir yn adran 4, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried mai un o brif rolau'r pwyllgor cynllunio yw penderfynu ar geisiadau ar gyfer datblygiad mawr. Mae datblygiadau mawr yn rhai a wneir ar raddfa fawr lle y mae'r buddiannau a'r effeithiau posibl yn arwyddocaol. Er nad ydynt o bwys cenedlaethol, gallant gynnwys llawer o'r datblygiadau hynny sy'n hanfodol ar gyfer ffyniant economaidd. Felly, dylai ceisiadau o'r fath gael eu penderfynu gan y pwyllgor cynllunio, a byddai angen trothwy datblygu er mwyn sicrhau cysondeb ar draws Cymru.
- 5.38 Fel rhan o'r papur ymgynghori, 'Cynllunio Cadarnhaol'⁶, gofynnwyd a yw'r categorïau a'r trothwyon presennol yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 yn dal i ddiffinio datblygiad mawr mewn ffordd briodol. Roedd hynny'n rhan o'r ymgynghoriad ehangach ar hierarchaeth rheoli datblygu newydd. Roedd y rhanddeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad o blaid y diffiniad. Mae'r dystiolaeth, felly, yn awgrymu y dylid parhau i ystyried datblygiad mawr yng Nghymru yn ôl y diffiniad ohono a geir yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012.
- 5.39 Yn unol â hynny, os cytunir mai rôl y pwyllgor cynllunio yw penderfynu ar geisiadau am ddatblygiadau mawr, yna dylai'r trothwy datblygu ar gyfer datblygiadau o'r fath yn y cynllun dirprwyo cenedlaethol gydymffurfio â'r hyn a

⁶ Cynllunio Cadarnhaol. Cynigion i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru. Llywodraeth Cymru. Rhagfyr 2013

ragnodir yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012.

CWESTIWN 9: Ydych chi'n cytuno y dylai'r trothwy datblygu gydymffurfio â'r diffiniad o 'ddatblygiad mawr' fel y'i rhagnodir yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012? Os nad ydych, eglurwch y rhesymau pam ac awgrymwch drothwy arall.

- 5.40 Drwy ragnodi trefniadau dirprwyo, bydd Llywodraeth Cymru yn tynnu'r cyfrifoldeb am reoli cyfraddau dirprwyo oddi wrth yr awdurdodau cynllunio lleol. Er y bydd gnweud hynny yn fodd i sicrhau cysondeb wrth wneud penderfyniadau ar draws Cymru, ni fydd yn caniatáu unrhyw hyblygrwydd i'r awdurdodau cynllunio lleol hynny a hoffai ddirprwyo mwy o geisiadau.
- 5.41 Mewn ymateb i hyn, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig bod trothwy arall yn cael ei gyflwyno. Bydd awdurdodau cynllunio lleol yn gallu dewis mabwysiadu'r trothwy yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 neu'r ail drothwy, lle byddai mwy o geisiadau yn cael eu dirprwyo i'w swyddogion. Cynigir y byddai strwythur y trothwy arall fel a ganlyn:
- a) ennill a gweithio mwynau neu ddefnyddio tir ar dyddodion o weithfeydd mwynau;
 - b) datblygiad gwastraff;
 - e) darparu tai annedd—
 - iii. pan fo nifer y tai annedd sydd i'w darparu yn 10 neu ragor;
 - iv. pan fwriedir cyflawni'r datblygiad ar safle sydd â'i arwynebedd yn 0.5 hectar neu'n fwy ac nad yw'n hysbys a yw'r datblygiad yn dod o fewn is-baragraff (c)(i);
 - ch) darparu adeilad neu adeiladau lle mae'r arwynebedd llawr y bwriedir ei greu gan y datblygiad yn 1,000 metr sgwâr neu ragor; neu
 - f) datblygiad a gyflawnir ar safle sydd â'i arwynebedd yn 1 hectar neu'n fwy.
- 5.42 Er na fyddai cyflwyno dau opsiwn yn arwain at y lefel uchaf o gysondeb ar draws Cymru, bydd yn sicrhau lefel sylfaenol o gysondeb ac eglurder ar gyfer y diwydiant datblygu a'r cyhoedd.

CWESTIWN 10 – Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau cynllunio lleol gael dewis rhwng dau drothwy datblygu?

Y trothwy gwrthwynebiadau

- 5.43 Mewn o leiaf naw awdurdod, datgelodd y data o arolwg yr RTPI fod nifer y gwrthwynebiadau sy'n dod i law yn gallu pennu a yw'r cais hwnnw yn cael ei gyfeirio'n uniongyrchol at bwyllgor neu at banel a fydd yn argymhell sut y dylid penderfynu ar y cais hwnnw. Ar hyn o bryd, mae nifer y gwrthwynebiadau sy'n ofynnol yn amrywio o gyn lleied ag un i ddeiseb ac arni 30 o wrthwynebiadau.
- 5.44 Mae rhai awdurdodau cynllunio lleol yn gweithredu mewn ffordd lle mae'r aelod(au) lleol yn cael gwybod bod gwrthwynebiad wedi dod i law i gais y mae'r

swyddogion yn argymhell y dylid ei gymeradwyo. Mae hynny'n rhoi cyfle i'r aelod alw'r cais i mewn os yw o'r farn bod materion yn codi y byddai'n well i'r pwyllgor cynllunio eu hystyried.

- 5.45 Mae awdurdodau cynllunio lleol eraill yn cyfeirio ceisiadau i'r pwyllgor pan fo deiseb yn cynnwys 30 llofnod neu fwy ac os nodir ar yr agenda bod y gwrthwynebwyr yn awyddus i annerch y pwyllgor. Yn achos rhai awdurdodau, mae'r ddarpariaeth hon yn amodol ar ddisgresiwn y cadeirydd. Felly, mae nifer y ceisiadau sy'n cyrraedd y pwyllgor yn dibynnu i ba raddau y mae'r cadeirydd yn arfer y disgresiwn hwnnw.
- 5.46 Mae defnyddio gwrthwynebiadau fel trothwy yn arwain at sefyllfa lle mae nifer sylweddol o geisiadau bach a syml yn cyrraedd y pwyllgor, a rheini'n rhai y gallai swyddogion benderfynu arnynt mewn ffordd effeithiol ac effeithlon o dan bwerau dirprwyedig. Mae'r rhain yn aml yn geisiadau gan ddeiliaid tai, nad ydynt yn denu unrhyw siaradwyr cyhoeddus, ac sydd i'w gweld tua diwedd yr agenda. Fel arfer, mae aelodau yn cymeradwyo'r ceisiadau hynny heb gael unrhyw gyflwyniad neu drafodaeth arnynt, o ganlyniad o bosibl i'r ffaith bod cynifer ohonynt ar yr agenda.
- 5.47 Yn ôl astudiaeth yr RTPI, yr hyn sy'n bennaf gyfrifol am ganran helaeth o'r ceisiadau sy'n cael eu cyfeirio at bwyllgor, ond a fyddai fel arfer yn cael eu penderfynu o dan bwerau dirprwyedig, yw gwrthwynebiadau a cheisiadau sy'n cael eu galw i mewn gan aelodau. O ganlyniad, nid yw astudiaeth yr RTPI yn cynnwys trothwy gwrthwynebiadau fel rhan o'i argymhelliad ar gynnwys y cynllun dirprwy cenedlaethol.
- 5.48 Derbynnir mai rôl y pwyllgor cynllunio yw penderfynu ar y ceisiadau hynny y mae gan y gymuned ehangach fuddiant ynddynt (gweler paragraff 4.3). Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid cynnwys trothwy gwrthwynebiadau yn y cynllun dirprwy cenedlaethol, ac y dylid ei ddefnyddio i fesur faint o fuddiant sydd gan y cyhoedd. Fodd bynnag, os ceir trothwy gwrthwynebiadau, mae'n bwysig bod lefel y gwrthwynebiadau yn cael ei phennu ar lefel sy'n sicrhau bod buddiant cymunedol dilys mewn datblygiad a bod y buddiant hwnnw'n fwy na diogelu buddiannau preifat un person, neu grŵp o bobl, ar draul gweithgareddau eraill.
- 5.49 Awgrymir y dylai 20 llythyr o wrthwynebiad oddi wrth bobl wahanol o gyfeiriadau gwahanol fod yn ofynnol. O ran deisebau, awgrymir bod isafswm o 30 llofnod yn ofynnol. Bernir mai'r lefel hon o wrthwynebiad sy'n cynrychioli'r buddiant sydd gan y gymuned orau.

CWESTIWN 11: Ydych chi'n cytuno y dylai'r cynllun dirprwy cenedlaethol gynnwys eithriad sy'n seiliedig ar drothwy gwrthwynebiadau?

CWESTIWN 12: Os ydych, ydy 20 llythyr oddi wrth bobl wahanol o gyfeiriadau gwahanol a/neu ddeiseb â 30 llofnod yn briodol er mwyn cadarnhau bod gan y gymuned ehangach fuddiant dilys yn y datblygiad?

Ceisiadau gan aelodau i alw cais i mewn

- 5.50 Er bod y broses lle gall aelodau alw cais i mewn yn amrywio rhwng awdurdodau cynllunio lleol, mae gan bob un ohonynt ddapariaeth i'r perwyl hwnnw yn eu cynlluniau dirprwyo. Yn achos y rhan fwyaf ohonynt, mae'n ofynnol i'r aelod roi rheswm sy'n ymwneud â mater cynllunio, ac yn achos rhai, mae gofyn cyflwyno cais o'r fath o fewn cyfnod penodol. Mae gan rai awdurdodau broses ychwanegol, lle bo'r cais i alw cais cynllunio i mewn yn cael ei archwilio gan gadeirydd/is-gadeirydd y pwyllgor cynllunio neu banel dirprwyo cyn cael ei roi ar agenda.
- 5.51 Nododd y data o'r arolwg a oedd yn rhan o astudiaeth RTPI Cymru fod tua thraean o'r eitemau sydd ar agenda pwyllgorau yn deillio o geisiadau gan aelodau i alw cais i mewn. Nodir bod hwn yn un o ddau ffactor pwysig (y trothwy gwrthwynebiadau yw'r llall) sy'n gyfrifol am y ganran helaeth o geisiadau sy'n cael eu tynnu o'r weithdrefn ddirprwyo ac sy'n cael eu cyfeirio at y pwyllgorau cynllunio. Fodd bynnag, daeth yr astudiaeth i'r casgliad bod ceisiadau gan aelodau i alw cais i mewn yn agwedd allweddol ar arfer rheolaeth ddemocrataidd yn y system gynllunio, ac y dylid ei gadw fel rhan o'r cynllun dirprwyo cenedlaethol.
- 5.52 Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad hwn ac felly, bydd yn ceisio cadw ceisiadau gan aelodau i alw cais i mewn yn rhan o'r cynllun dirprwyo cenedlaethol. Fodd bynnag, i sicrhau bod y drefn hon yn cael ei gweithredu o fewn terfynau rôl y pwyllgor cynllunio fel y'i diffinnir ym mharagraff 4.3, rhaid pennu cyfyngiadau o ran pryd y caiff aelodau ddefnyddio'r drefn hon. Ar sail hynny, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i greu eithriad ar gyfer ceisiadau gan aelodau i alw cais i mewn.
- 5.53 Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried tri opsiwn ar gyfer yr eithriad penodol hwn (gweler atodiad 2):

Opsiwn 1 - dilysu gan baneli dirprwyo / cadeirydd

- 5.54 Byddai canllawiau yn cael eu cyhoeddi i'r perwyl y byddai panel dirprwyo neu gadeirydd y pwyllgor cynllunio yn penderfynu ar geisiadau ffurfiol gan aelodau i'r perwyl y dylai cais cynllunio a ddirprwywyd i'r swyddogion cynllunio gael ei dynnu o'r cynllun dirprwyo cenedlaethol ac mai'r pwyllgor cynllunio ddylai benderfynu arno.
- 5.55 Byddai aelodau yn cyflwyno eu ceisiadau i'r panel dirprwyo neu'r cadeirydd (drwy'r awdurdod cynllunio lleol) o fewn 21 diwrnod i'r dyddiad y byddai'r aelod yn cael gwybod am y cais.
- 5.56 Byddai'n rhaid i aelodau fodloni meini prawf penodol cyn cyflwyno cais i gyfeirio cais cynllunio o'r fath at y pwyllgor. Byddai'r aelod yn nodi pam ei fod yn gwneud y cais a sut y mae'n bodloni'r meini prawf hynny.

- 5.57 Byddai'r panel dirprwyo neu'r cadeirydd yn asesu dilysrwydd y cais yn unol â'r meini prawf, ac yn rhoi rheswm i'r aelod am ei benderfyniad. Mae penderfyniad y panel dirprwyo neu'r cadeirydd yn derfynol.
- 5.58 Ar hyn o bryd, mae gan Gyngor Sir Penfro banel dirprwyo. Yn ôl ymchwil RTPi Cymru, dim ond 5% (o gyfanswm y ceisiadau a oedd gerbron y pwyllgor cynllunio) yn yr awdurdod hwn yn 2012/13 oedd yn geisiadau a alwyd i mewn gan aelodau.
- 5.59 Dyma'r meini prawf y mae'n rhaid i aelodau Cyngor Sir Penfro gydymffurfio â hwy os ydynt am ofyn i gais cynllunio gael ei gyfeirio at y pwyllgor:
- Mae'r datblygiad yn cael effaith gynllunio andwyol ar fwy na chymdogion agos neu ar ranbarthau etholiadol eraill;
 - Mae'r penderfyniad ar yr effaith a gaiff datblygiad arfaethedig yn y gymuned leol yn seiliedig ar fuddiannau cystadleuol neu'n un cymhleth a sensitif, a byddai'n fuddiol i fanteision y datblygiad gael eu harchwilio'n gyhoeddus ;
 - Mae materion yn codi sy'n tynnu sylw at wrthdaro yn y polisi cynllunio.
- 5.60 Byddai'r meini prawf ar gyfer cynllun dirprwyo cenedlaethol yn sicrhau mai dim ond y ceisiadau hynny o fath/maint penodol y nodwyd eu bod yn rhan o gylch gwaith y pwyllgor cynllunio (gweler adran 4) y caiff aelodau eu tynnu o'r broses ddirprwyo a'u cyfeirio at y pwyllgor cynllunio. Byddai cynigion sy'n ymwneud â datblygiadau bach, yn enwedig datblygiadau gan ddeiliaid tai, yn cael eu heithrio, felly, o'r broses galw i mewn.
- 5.61 Byddai rhagnodi'r meini prawf yn genedlaethol yn sicrhau lefel o gysondeb ar draws Cymru ac yn rhoi eglurder i aelodau ynghylch pryd y gallent arfer eu pŵer galw i mewn.
- 5.62 Cydnabyddir y gallai sefydlu a gweithredu panel dirprwyo arwain at gostau o ran pwysau ychwanegol ar amser gwerthfawr aelodau (a swyddogion/staff cymorth swyddog/technegol) ac y gallai greu mwy o oedi yn y broses gwneud penderfyniadau.

Opsiwn 2 - cyrraedd y trothwy gwrthwynebiadau cyn y gallai aelodau alw cais i mewn

- 5.63 Byddai modd cyflwyno opsiwn lle byddai angen cyrraedd y trothwy gwrthwynebiadau cyn y gallai aelodau alw cais i mewn. Byddai cyrraedd y trothwy gwrthwynebiadau yn dangos y gallai lefel y pryder lleol am ddatblygiad olygu bod gan y gymuned ehangach fuddiant mesuradwy. Byddai hynny, felly, yn golygu bod y cais yn rhan o gylch gwaith y pwyllgor cynllunio.
- 5.64 Mae hynny'n golygu bod angen ystyried a yw gwrthwynebiadau'n ddilys. Yn gyntaf, bydd gofyn sicrhau bod y materion a godir yn ystyriaethau cynllunio perthnasol ac, yn ail, penderfynu a oes gan y cyhoedd yn gyffredinol fuddiant dilys.

Opsiwn 3 - cyrraedd y trothwy gwrthwynebiadau a'r trothwy datblygu cyn y gallai aelodau alw cais i mewn

- 5.65 Byddai'r opsiwn hwn yn dileu'r trothwy datblygu fel eithriad ar ei ben ei hun. Yn lle hynny, byddai'n rhaid cyrraedd y trothwy datblygu **a'r** trothwy gwrthwynebiadau cyn y gallai aelodau alw cais i mewn.
- 5.66 Ni fyddai aelodau'n gallu galw ceisiadau i mewn pe na bai'r ceisiadau hynny'n cyrraedd y trothwy datblygu neu pe na bai'r nifer rhagnodedig o wrthwynebiadau wedi dod i law a'r trothwy gwrthwynebiadau heb ei gyrraedd.
- 5.67 Drwy'r opsiwn hwn, mae'n bosibl y byddai'r aelod lleol yn chwarae mwy o ran yn y broses gwneud penderfyniadau. Yn rhinwedd ei swydd fel cynrychiolydd lleol, ef/hi fyddai'n penderfynu a yw'r datblygiad, er ei fod yn 'ddatblygiad mawr' oherwydd ei faint, yn codi unrhyw faterion y byddai'n well iddynt gael eu trafod mewn fforwm cyhoeddus gan y pwyllgor cynllunio. Mae'r ystyriaethau o ran gwrthwynebiadau a buddiant y cyhoedd yn unol â pharagraff 5.63. I raddau helaeth, byddai'r aelod lleol yn rheoli llif y ceisiadau a fyddai'n cael eu penderfynu gan y pwyllgor cynllunio.

CWESTIWN 13: Oes angen cyfyngu ar nifer y ceisiadau gan aelodau i alw cais cynllunio i mewn? Os nad oes, eglurwch y rhesymau pam.

CWESTIWN 14: Ddylid cyflwyno paneli dirprwyo er mwyn dilysu ceisiadau gan aelodau i alw cais cynllunio i mewn?

CWESTIWN 15: Ddylai ceisiadau gan aelodau i alw cais cynlluno i mewn gael eu cysylltu ag eithriad arall? Os na ddylent, eglurwch y rhesymau pam ac awgrymwch ffordd bosibl arall o weithredu.

Cyfeirio ceisiadau at y prif swyddog/pennaeth cynllunio

- 5.68 Yn ôl yr ymchwil a wnaed, roedd cyfeirio ceisiadau at y Prif Swyddog/Pennaeth Cynllunio yn nodwedd gyson yn y cynlluniau dirprwyo presennol. Nid yw Llywodraeth Cymru am weld hynny'n cael ei gynnwys yn y cynllun dirprwyo cenedlaethol. Disgwylir y bydd y ceisiadau hynny sy'n cael eu cyfeirio at y pwyllgor cynllunio ar hyn o bryd o ganlyniad i'r eithriad hwn yn dod o dan eithriadau eraill, megis eu bod yn gwyro oddi wrth y cynllun datblygu, neu eu bod uwchlaw'r trothwy datblygu.

Adran 6 – Cyd-fyrddau Cynllunio a Phaneli Cynllunio Strategol

Y Cefndir

- 6.1 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai amgylchiadau godi yn y dyfodol lle byddai angen uno swyddogaethau awdurdodau cynllunio lleol er mwyn helpu i greu gwasanaethau cynllunio lleol mwy effeithlon a chadarn.
- 6.2 Mae'r pwerau presennol i uno gwasanaethau cynllunio lleol i'w gweld yn Adran 2 (Cyd-fyrddau Cynllunio) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae'r adran honno'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru sefydlu Cyd-fwrdd Cynllunio i fod yn awdurdod cynllunio lleol ar gyfer dwy ardal neu fwy, lle bo'nail ardal a'r llall yn cynnwys rhan neu'r cyfan o sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru.
- 6.3 Nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol wedi'i defnyddio yng Nghymru hyd yma. Bernir nad yw, ar ei ffurf bresennol, yn ateb y gofyn gan nad yw'n cynnwys yr holl swyddogaethau cynllunio lleol modern megis paratoi Cynllun Datblygu Lleol neu gasglu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Aed ati ym Mil Drafft Cynllunio (Cymru) ac yn y papur ymgynghori cysylltiedig, Cynllunio Cadarnhaol, i amlinellu cynigion i ehangu pwerau Cyd-fyrddau Cynllunio fel eu bod yn cynnwys holl swyddogaethau awdurdodau cynllunio lleol. Mae darpariaethau deddfwriaethol i'r perwyl hwnnw i'w gweld ym Mil Cynllunio (Cymru) a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru; gweler adran 13.
- 6.4 Nid yw'r darpariaethau presennol yn y ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymdrin â Chyd-fyrddau Cynllunio yn rhagnodi sut y bydd Cyd-fyrddau Cynllunio'n gweithredu. Mae Adran 2 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref yn pennu y bydd y modd y byddant yn gweithredu yn cael ei rhagnodi gan y gorchymyn i sefydlu Cyd-fwrdd Cynllunio, fel a ganlyn:-

'A joint planning board constituted by an order ... shall consist of such number of members as may be determined by the order, to be appointed by the constituent councils.'

- 6.5 Cynigiwyd yn y papur ymgynghori, Cynllunio Cadarnhaol, y byddai Cyd-fwrdd Cynllunio 'yn cael ei wasanaethau gan un adran gynllunio' ac y byddai'r aelodaeth 'yn dod o'r awdurdodau cyfranogol ar sail gymesur yn gysylltiedig â'r boblogaeth'. Yn ogystal â'r cynigion yn y papur hwn i ddiffinio maint ac aelodaeth pwyllgorau cynllunio, ystyriwyd hefyd sut y bydd Cyd-fyrddau Cynllunio yn gweithredu'n ymarferol, ochr yn ochr â phwyllgorau cynllunio.
- 6.6 Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar aelodaeth etholedig y Cyd-fyrddau Cynllunio yn hytrach nag ar y staff technegol, gan gynnwys swyddogion cynllunio a'r staff cysylltiedig a fydd yn rhan o'r Cyd-fwrdd Cynllunio. Cyfrifoldeb y Cyd-fwrdd Cynllunio unigol, ar ôl iddo gael ei sefydlu, fydd penderfynu pa staff y bydd eu hangen arno.

Arferion ar Hyn o Bryd: Enghraifft o Gydweithio gan Awdurdodau Cynllunio Lleol – Cyd-gynllun Datblygu Lleol Ynys Môn a Gwynedd

- 6.7 Er nad oes unrhyw enghreifftiau lle mae awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru wedi cyfuno eu holl swyddogaethau, mae awdurdodau cynllunio lleol wedi cydweithio'n wirfoddol ar amryfal agweddau ar eu swyddogaethau. Yr enghraifft fwyaf diweddar a nodedig o hynny yw'r penderfyniad gan Ynys Môn a Gwynedd i baratoi Cyd-gynllun Datblygu Lleol.
- 6.8 Mae'r ddau awdurdod wedi sefydlu 'Cyd-bwyllgor Polisi Cynllunio' fel y bo modd iddynt fynd ati, wrth i'r broses o baratoi'r Cyd-gynllun Datblygu Lleol fynd rhagddo, i ystyried a phenderfynu'n derfynol ar amryfal agweddau ar y cynllun hwnnw. Sefydlwyd y Pwyllgor hwnnw yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac mae arno 14 o aelodau, 7 o Gyngor Gwynedd a 7 o Gyngor Sir Ynys Môn. Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod sy'n paratoi'r cynllun. Fodd bynnag, nid y Pwyllgor hwn sy'n gwneud y penderfyniadau gan fod yn rhaid i'r polisïau / y cynllun gael eu cymeradwyo gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol. Mae hwn yn drefniant cydweithio llai ffurfiol nag uno awdurdodau cynllunio lleol.

Maint ac Aelodaeth Cyd-fyrddau Cynllunio: yr Opsiynau

Cyd-fyrddau Cynllunio: Maint

- 6.9 O dan y pwerau y mae Gweinidogion Cymru yn eu ceisio er mwyn sefydlu Cyd-fyrddau Cynllunio, bydd nifer yr aelodau etholedig ar y Byrddau hynny'n cael eu rhagnodi gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn. Er mwyn sicrhau bod nifer yr aelodau a etholir i'r Cyd-fyrddau Cynllunio yn cyd-fynd â'r cynigion sy'n rhagnodi maint pwyllgorau cynllunio, cynigir mai Gweinidogion Cymru ddylai benderfynu ar nifer yr aelodau â'r hawl i wneud penderfyniadau a gaiff eu hethol i'r Cyd-fwrdd Cynllunio. Cynigir y dylai'r nifer hwnnw fod rhwng yr isafswm o 11 a'r uchafswm o 21 o aelodau, yn unol â'r ymchwil annibynnol a gynhaliwyd yn ddiweddar gan RTPI Cymru (gweler adran 4).

CWESTIWN 16: Ydych chi'n cytuno y dylai Gweinidogion Cymru gael yr awdurdod i benderfynu ar nifer yr aelodau ar gyd-fyrddau cynllunio, ar yr amod bod y nifer hwnnw'n cyd-fynd â nifer yr aelodau ar bwyllgorau cynllunio?

Cyd-byrddau Cynllunio: Aelodaeth

- 6.10 Mater i'r awdurdodau cynllunio unigol fydd penderfynu pa rai o blith aelodau etholedig yr awdurdod lleol ddylai eistedd ar y Cyd-fwrdd Cynllunio, ond bydd niferoedd yr aelodau a etholir o bob un o'r awdurdodau cyfansoddol yn cael eu rhagnodi, a hynny er mwyn sicrhau tegwch, tryloywder a chymesuredd. Cynigir y dylid defnyddio fformiwla a fydd yn seiliedig ar lefelau poblogaeth er mwyn sicrhau cymesuredd o ran nifer yr aelodau a etholir i gynrychioli pob un o'r awdurdodau sy'n rhan o'r Cyd-fwrdd. Dyma'r fformiwla a gynigir:

Formiwla: Pennu cyfran yr aelodau o bob awdurdod cynllunio lleol a etholir i gyd-fwrdd cynllunio

**Cyfanswm aelodau'r
Cyd-fwrdd Cynllunio***

wedi'i rannu â



**Poblogaeth ar gyfer pob
un o'r awdurdodau
cynllunio cyfansoddol
unigol**

**Phoblogaeth gyfan yr
awdurdodau cynllunio
lleol cyfansoddol**

Dylid talgrynnu cyfansymiau i'r cyfanrif agosaf.

**mae esboniad o sut y bwriedir penderfynu ar y nifer hwn i'w weld ym mharagraff 6.9*

6.11 Wrth ddefnyddio'r fformiwla uchod, mae'n bosibl na fydd talgrynnu i'r cyfanrif agosaf yn cyfateb i nifer yr aelodau a fydd wedi'i bennu gan Weinidogion Cymru; er enghraifft, mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu y dylai'r Bwrdd gynnwys cyfanswm o 21 o aelodau, ond mae cyfanswm yr aelodau a bennir gan y fformiwla yn 22. Mewn achosion o'r fath, dylid defnyddio'r ffigur a gyfrifir gan ddefnyddio'r dull cynrychiolaeth gyfrannol, a bwrw nad yw'r cyfrif terfynol ar gyfer pob un o'r awdurdodau cynllunio lleol cyfansoddol yn fwy na 21. Os bydd nifer yr aelodau a gyfrifir gan ddefnyddio'r fformiwla hon (sy'n seiliedig ar boblogaeth) yn fwy na 21, dylai'r awdurdod mwyaf ildio un aelod ac, os bydd angen, dylai'r awdurdod mwyaf ond un hefyd ildio un aelod er mwyn sicrhau bod yr awdurdodau a fydd yn cyfrannu at y Cyd-fwrdd Cynllunio yn cadw o fewn y terfyn hwn o ran nifer yr aelodau.

6.12 Dyma enghraifft o sut y gallai'r fformiwla hon weithio'n ymarferol:

Enghraifft 1

Mae Gweinidogion Cymru yn defnyddio’u pwerau i sefydlu Cyd-fwrdd Cynllunio sy’n cyfuno swyddogaethau cynllunio Awdurdod Cynllunio Lleol A (sydd â phoblogaeth o 80,000) â swyddogaethau cynllunio Awdurdod Cynllunio Lleol B (sydd â phoblogaeth o 100,000). Mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu y bydd 13 o aelodau ar y Cyd-fwrdd Cynllunio.

Defnyddio’r Fformiwla ar gyfer Enghraifft 1

Yn gyntaf, rhannwch nifer yr aelodau ar y Cyd-fwrdd Cynllunio â phoblogaeth gyfan yr awdurdodau cynllunio lleol cyfansoddol, fel a ganlyn:

13

$$(80,000 + 100,000) \quad = 0.0000722$$

Er mwyn penderfynu ar nifer y cynrychiolwyr a fydd gan Awdurdod Cynllunio Lleol A

$$0.0000722 \times 80,000 = 5.78 \text{ (i 2 le degol), wedi'i dalgrynnu i'r cyfanrif agosaf} =$$

Bydd 6 aelod o Awdurdod Cynllunio Lleol A yn rhan o’r Cyd-fwrdd Cynllunio ar gyfer Enghraifft 1

Er mwyn penderfynu ar nifer y cynrychiolwyr a fydd gan Awdurdod Cynllunio Lleol B

$$0.0000722 \times 100,000 = 7.22, \text{ wedi'i dalgrynnu i'r cyfanrif agosaf} =$$

Bydd 7 aelod o Awdurdod Cynllunio Lleol B yn rhan o’r Cyd-fwrdd Cynllunio ar gyfer Enghraifft 1

CWESTIWN 17: Ydych chi’n cytuno â’r fformiwla arfaethedig, sy’n seiliedig ar boblogaeth, ar gyfer penderfynu ar nifer yr aelodau o’r awdurdodau cynllunio cyfansoddol a fydd ar y cyd-fwrdd cynllunio?

- 6.13 Ar ôl cyfrifo nifer yr aelodau o bob awdurdod cyfansoddol, y cam nesaf i’r Awdurdodau yw penderfynu pa aelodau fydd yn eu cynrychioli ar y Cyd-fwrdd Cynllunio. Wrth i bob awdurdod fynd ati i wneud hynny, bydd gofyn iddo ystyried cyfansoddiad a natur ei boblogaeth, ynghyd â phwysigrwydd sicrhau bod cydbwysedd o ran y rhywiau ar y Cyd-fwrdd Cynllunio. Y Bwrdd yn unig fydd yn gyfrifol am yr holl swyddogaethau cynllunio ac ni fydd yn cyfeirio materion yn ôl (naill ai gyda’i gilydd neu’n unigol) i’r awdurdodau cyfansoddol, ac eithrio pan fo’n paratoi cynllun datblygu strategol.

Cynlluniau Datblygu Strategol: Enwebu i'r 'Panel Cynllunio Strategol'

- 6.14 Yn ogystal â'r cynigion i sefydlu Cyd-fyrddau Cynllunio, mae Bil Cynllunio (Cymru) a'r papur ymgynghori cysylltiedig, Cynllunio Cadarnhaol, yn amlinellu cynigion ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol ar gyfer yr ardaloedd prin hynny lle mae angen gweithredu ar draws awdurdodau cynllunio lleol. Cynrychiolwyr a enwebir gan yr awdurdodau cynllunio lleol cyfansoddol i fod yn aelodau o Banel Cynllunio Strategol fydd yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol. Mae Bil Cynllunio (Cymru), a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn cynnwys pwerau i sicrhau y bydd gan y panel y gallu i wneud penderfyniadau, ac mae ynddo hefyd ddarpariaethau cysylltiedig eraill; gweler adrannau 3-5 ac atodlen 1.
- 6.15 Bydd union ffiniau ardal y Panel Cynllunio Strategol yn cael eu rhagnodi mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, ac felly hefyd nifer yr aelodau a fydd gan yr awdurdodau cynllunio lleol ar y panel a nifer yr aelodau eraill a enwebir, a fydd, gyda'i gilydd, yn creu'r Panel Cynllunio Strategol. Bydd dwy ran o dair o aelodau'r panel yn aelodau etholedig a fydd yn dod o'r awdurdodau cynllunio lleol cyfansoddol, a bydd gan bob un o'r awdurdodau yn yr ardal cynllunio strategol o leiaf un aelod. Ymhlith yr aelodau etholedig a fydd yn gymwys i'w henwebu fydd y cynghorwyr hynny sy'n cynrychioli adran etholiadol yn yr ardal cynllunio strategol neu aelodau awdurdod parc cenedlaethol sydd yn yr ardal honno. Bydd y traean sy'n weddill o aelodau'r Panel Cynllunio Strategol yn cael ei benodi gan y panel, ar ôl i'r aelodau hynny gael eu henwebu gan gorff a fydd ar restr a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. Bydd y cyrff a restrir yn bartneriaid economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Rhaid i'r Panel Cynllunio Strategol benodi cadeirydd a dirprwy gadeirydd o blith yr aelodau sy'n cynrychioli'r awdurdodau cynllunio lleol, a byddant yn dal y swyddi hynny am gyfnod o flwyddyn fan bellaf, er y bydd modd iddynt gael eu hailbenodi.
- 6.16 Bydd Paneli Cynllunio Strategol yn wahanol i Gyd-fyrddau Cynllunio. Ni fydd Paneli Cynllunio Strategol yn arfer swyddogaethau awdurdod cynllunio lleol ond byddant, yn hytrach, yn gyrff a gaiff eu sefydlu'n benodol er mwyn paratoi cynlluniau datblygu strategol.
- 6.17 Oherwydd nifer yr awdurdodau cynllunio lleol a allai fod yn gysylltiedig â pharatoi Cynlluniau Datblygu Strategol, bernir ei bod yn debygol y bydd y Paneli Cynllunio Strategol yn cynnwys mwy o aelodau na'r nifer a gynigir ar gyfer pwyllgorau cynllunio, sef rhwng 11 ac 21. Bydd cyfanswm yr aelodau a fydd ar y Panel Cynllunio Strategol yn cael ei bennu gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau er mwyn sicrhau bod nifer priodol o aelodau ar y panel hwnnw o bob un o'r awdurdodau cynllunio lleol ac o'r cyrff a fydd yn cynrychioli buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Adran 7 – Effeithiau Ariannol

- 7.1 Mae'r costau a fyddai'n gysylltiedig â rhoi'r newidiadau arfaethedig i bwyllgorau cynllunio ar waith ac â chyflwyno cynllun dirprwyo cenedlaethol yn cael eu hamlinellu mewn asesiad rhannol o effaith reoleiddiol ac mae'r asesiad hwnnw i'w weld yn Anecs 1.

CWESTIWN 18: Oes gennych unrhyw sylwadau am yr Asesiad rhannol o Effaith Reoleiddiol yn Anecs 1? Ydy'r rhagdybiaethau a wneir ynddo yn rhai realistig? Os nad ydynt, pa ffigurau fyddai'n fwy priodol?

Atodiad 1

Y Trefniadau Dirprwyo Presennol

Sampl o'r eithriadau i'r pwerau dirprwyedig (fel ym mis Awst 2014)	Ynys Môn	Blaenau Gwent	Pen-y-bont ar Ogwr	Gaerfili	Gaerdydd	Sir Gaerfyrddin	Ceredigion	Conwy	Sir Ddinbych	Sir y Fflint	Gwynedd	Merthyr Tudful	Sir Fynwy	Castell-nedd Port Talbot	Gasnewydd	Sir Penfro	Powys	Rhondda Cynon Taf	Abertawe	Torfaen	Bro Morgannwg	Wrecsam	Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniol	Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	Parc Cenedlaethol Eryri	Number of LPAs operating exception
Bydd cais yn cael ei ddirprwyo i'r swyddogion oni bai bod yr eithriad canlynol yn gymwys...																										
Ymgeisydd																										
Cais gan Gyngor neu ar ei ran			A										B							B						11
Cais a wnaed gan aelod neu ar dir sy'n eiddo i aelod																										18
Ceisiadau mewn perthynas ag adeiladau/tir y Cyngor lle mae buddiannau/manteision sylweddol i'r Cyngor																										9
Datblygiad ar dir y Cyngor ond heb fod yn ymwneud â swyddogaeth benodol y Cyngor																										2
Buddiant gan un o weithwyr cyflogedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn y cais			A																		C					16
Manylion y cais																										
Galw i Mewn gan Aelod Lleol								D								E										24
Prif Swyddog / Pennaeth Cynllunio yn penderfynu cyfeirio cais at bwyllgor																										16
Gwyro oddi wrth y cynllun datblygu neu fynd yn groes iddo, ac argymhelliaid i'w gymeradwyo																										20
Cais o Bwysigrwydd Strategol																										3
Ceisiadau mawr (DMPO)																										6
Datblygiad preswyl mawr (mwy na 10 uned breswyl neu arwynebedd dros 0.5 hectar)																										4
Ceisiadau ar gyfer mwy na # o garafanau											5								4							2
Cais llawn ar gyfer mastiau ac offer telathrebu																										2
Ceisiadau ag Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol																										9
Ceisiadau ar gyfer llinellau trydan sydd â chapasiti o 132KV neu fwy																										3
Gwrthwynebiadau																										
Llythyrau o wrthwynebiad wedi dod i law oddi wrth y cymddogion a'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried cymeradwyo (nifer y llythyrau angenrheidiol)			2F	d	2/6K	H	5	4		3	H	5						3	E	G	F					12
Argymhelliaid yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn groes i gyngor Ymgynghorai Statudol			F	D																						9
Yn groes i'r Cyngor Tref/Cymuned			F									J														5
Arall / Unigryw																										
Galw i mewn gan Arweinydd y Cyngor																										1
Dirymu caniatâd																										1
Ceisiadau i ddileu/amrywio amod neu S106 a gymeradwywyd yn flaenorol gan bwyllgor																										1
Datblygiad Preswyl ar gyfer mwy na 5 annedd / datblygiad masnachol sy'n fwy na 500 metr sgwâr																										1
Datblygiad Preswyl ar gyfer mwy nag 20 annedd / datblygiad masnachol sy'n fwy na 2000 metr sgwâr																										1
Datblygiad Preswyl ar gyfer mwy na 2 annedd (10 ar safleoedd a neilltuwyd)																										1
Cais llawn ar gyfer mwy na 5 annedd, cais amlinellol ar gyfer dros 0.5 hectar, neu faterion a gadwyd yn ôl ar gyfer mwy na 10																										1
Gwrthod caniatâd cynllunio							H																			1
Deiseb o wrthwynebiad â # llofnod arni a'r gwrthwynebwyr am annerch y pwyllgor																			30							1
Ceisiadau lle bo gwrthdaro rhwng polisïau'r cynllun datblygu a pholisïau mewn cynlluniau newydd																										1
Cyngor a 3ydd Parti yn ymrwymo i gytundeb S106																										1
Datblygiad amhreswyl newydd sy'n creu >2000 metr sgwâr o ofod llawr, sydd dros 15m o uchder, a/neu'r safle'n fwy na 2ha												I														1
Newid defnydd adeiladau a thir lle mae arwynebedd y llawr yn fwy na 2000 metr sgwâr neu arwynebedd y safle'n fwy na 2 ha																										1
39. Adeilad newydd, neu estyniad sylweddol (dros 50%), i ddatblygiad masnachol, diwydiannol neu fanwerthu																										1
Ceisiadau Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer adeiladau rhestredig Gradd I neu II*																										1
Estyniadau i adeiladau amhreswyl lle mae'r gofod llawr ychwanegol net yn fwy na 2000 metr sgwâr neu 50% o'r adeilad presennol, neu lle mae'r uchder												I														1
o ganlyniad dros 15 metr yn uwch na lefel y ddaear (terfynau uwch ar safleoedd a neilltuwyd)																										1
Newid defnydd i fod yn dafarn neu glwb trwyddedig neu geisiadau i estyn eiddo o'r fath																										1
Tyrbinau gwynt dros 30m o uchder yn gyffredinol (i frig y llafn)																										1
Parciau arâe paneli solar dros 5 hectar o arwynebedd																										1
Tipio gwastraff anadweithiol, diwenwyn ar safleoedd sy'n fwy na 1 ha. mewn arwynebedd																										1
Adeiladu tanciau storio sy'n dal dros 10,000 o litrau, uwch ben ac o dan y ddaear																										1
Pibellau, carthffosydd, draeniau a llinellau pŵer dros 1km o hyd, a gorsafocedd ac is-orsafocedd cysylltiedig																										1
Yn groes i gyngor cyfreithiol																										1
Datblygiad defnydd cymysg/busnes neu fasnachol lle mae'r arwynebedd llawr allanol gros yn fwy na 1000 metr sgwâr pan fo o fewn 200 metr i unrhyw annedd neu 5000 metr sgwâr ym mhob achos arall																										1
Ceisiadau i ddileu neu amrywio amod cynllunio sydd wedi'i osod yn benodol gan bwyllgor																										1
Penderfyniad blaenorol gan bwyllgor ond gall fod perygl sylweddol o ddyfarnu costau yn erbyn y cyngor ar apêl																										1
Ceisiadau ar gyfer datblygiad masnachol diwydiannol neu fanwerthu sy'n fwy na 500 metr sgwâr																										1
Cytundeb S106 gwerth dros £10,200																										1
Adeiladau, estyniadau neu strwythurau ategol sydd dros 200 metr sgwâr o ran cyfanswm arwynebedd llawr																										1
Datblygiad preswyl dros 1 hectar neu 30 annedd																										1
Siopau a swyddfeydd dosbarth A1 ac A2 dros 500m² o ofod llawr																										1
Swyddfeydd a diwydiant ysgafn dosbarth B1 dros 1000m² o ofod llawr																										1
Diwydiant cyffredinol dosbarth B2 dros 1000m² o ofod llawr																										1
Adeiladau cyfanwerthu a stordai dosbarth B8 dros 2000m² o ofod llawr																										1
Defnydd preswyl dosbarth C1 a C2 a sefydliadau eraill dosbarth D1 a D2 dros 500m² o ofod llawr																										1
Pob datblygiad twristiaeth a hamdden dros 500m² o ofod llawr neu 0.5ha o ran arwynebedd																										1
Pob cais ar gyfer echdynnu mwynau, neu drin neu waredu gwastraff dros 0.5ha o ran arwynebedd																										1
Pob adeilad amaethyddol dros 1000m² o ofod llawr neu sydd ag arwynebedd safle dros 1ha																										1

Allwedd

A-Dim on dos oes gwrthwynebiad cynllunio sylweddol perthnasol wedi dod i law

B-Oni bai bod y cais yn fân/annadleuol

C-Prif swyddogion yn unig

D-Ar ôl ymgynghori â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd

E-Wedi'i gyfeirio at y panel dirprwy

F-Oni bai bod y cais wedi'i drechu gan amod neu negodi

G-yn gymwys ar gyfer ceisiadau mawr yn unig

H-ymgynghori ag Aelod Lleol


I-wedi cynyddu i 5000 metr sgwâr a 5 ha ar safleoedd sefydledig neu dir a neilltuwyd

J-ac yn dymuno annerch y pwyllgor


K-rhaid cael 2 neu ragor o wrthwynebiadau ysgrifenedig ar gyfer mân geisiadau, a 6 neu ragor o Wrthwynebiadau ysgrifenedig ar gyfer datblygiadau mawr (Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu (DMPO))

Opsiwn 1 - Galw i mewn gan aelod wedi'i ddilysu gan y Panel Dirprwyo/Cadeirydd

Stwythur




Y Broses




Opsiwn 2 – Galw I mewn gan aelod a chyraedd y trothwy gwrthwynebiadau:

Stwythur




Y Broses



Opsiwn 3 – Galw I mewn gan aelod a chyraedd y trothwy gwrthwynebu a'r trothwy datblygu :

Stwythur



Y Broses

